

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>	<b>AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE</b>
<b>DYDD MAWRTH, 13 CHWEFROR 2018 am 2.00 y.p.</b>	<b>TUESDAY, 13 FEBRUARY, 2018 at 2:00 p.m.</b>
<b>YSTAFELL BWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI</b>	<b>COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

### **PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams

### **Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

### **ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

R. Llewelyn Jones (*Is-Gadeirydd/Vice-Chair*), Peter Rogers (*Cadeirydd/Chair*)

## **AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza

## R H A G L E N

### 1 **DATGAN DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **COFNODION CYFARFOD 5 RHAGFYR, 2017** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2017.

### 3 **DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 13 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

### 4 **ARGYMHELLION ARCHWILIO MEWNOL, MATERION A RISGIAU SY'N PARHAU I FOD ANGEN SYLW** (Tudalennau 47 - 56)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

### 5 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD** (Tudalennau 57 - 68)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol.

### 6 **STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2018/19** (Tudalennau 69 - 82)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

### 7 **DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19** (Tudalennau 83 - 118)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

### 8 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 119 - 124)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

### 9 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 125 - 126)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

“O dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hynny yn Atodlen 12A i'r Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”

### 10 **Y GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL** (Tudalennau 127 - 136)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

## PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr, 2017

<b>YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd Peter Rogers (Cadeirydd)  Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Robin Williams  Aelodau Lleyg: Dilwyn Evans, Jonathan Mendoza
<b>WRTH LAW:</b>	Prif Weithredwr Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh (JT) (ar gyfer eitem 2) Rheolwr Gwasanaeth a Pherfformiad TG (LE) (ar gyfer eitem 2) Rheolwr Risg ac Yswiriant (JJ) Prif Archwiliwr Mewnol (EW) Uwch Archwiliwr Mewnol (SAJ) Swyddog Pwyllgor (ATH)
<b>YMDDIHEURIADAU:</b>	Y Cynghorwyr G O Jones, R. Llewelyn Jones, Marion Pryor (Pennaeth Archwilio a Risg)
<b>HEFYD YN BRESENNOL:</b>	Y Cynghorydd John Griffith (Aelod Portffolio Cyllid), Gwilym Bury (Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru)

---

#### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

#### 2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 21 MEDI, 2017

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2017 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi o'r cofnodion -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y cynnydd a wnaed, neu fel arall, o ran penderfynu a ddylid adnewyddu'r System Rheoli Gwybodaeth Tai Orchard  
  
Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod penderfyniad wedi'i wneud i ehangu'r system Orchard bresennol ac i weithio gyda'r cyflenwr i wneud gwell defnydd o'r modiwl Busnes.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oedd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ystyried adroddiad adolygu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar y trefniadau Cludiant Ysgol yr oedd y Pwyllgor Archwilio wedi cyfeirio'r mater i'w sylw.

Rhodddwyd gwybod i'r Pwyllgor y rhaglennwyd i'r mater gael sylw gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhelir ar 31 Ionawr, 2018.

- Yn unol â chais y Pwyllgor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi, 2017, adroddodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh ar ddull y Cyngor o ymdrin â'r bygythiad o weithgareddau hacio maleisus a mathau eraill o droseddau seiber.

Adroddodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh fod nifer y bygythiadau seiber yn cynyddu fel y tystiwyd mewn nifer o adroddiadau i'r wasg. Mae ymosodiadau seiber eleni wedi cyrraedd lefelau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen ac mae'n debygol y bydd mwy eto y flwyddyn nesaf. Gall ymosodiadau gael eu gwneud gan hacwyr sy'n gweithredu ar ran gwladwriaethau neu gan unigolion; gallant fod yn rhai lefel isel iawn lle mae'r tebygolrwydd o lwyddo yn erbyn sefydliad fel awdurdod lleol yn fach iawn neu gallant fod yn rhai soffistigedig. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei Dechnoleg Gwybodaeth wedi'i diogelu'n ddigonol yn erbyn yr ystod cyfan o ymosodiadau. Un bygythiad sy'n dod i'r amlwg yw Ransomware a gyflwynir fel arfer trwy e-bost a dolennau cysylltiedig. Yng ngoleuni'r fath fygythiad, mae hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr yn hollbwysig i bawb sy'n defnyddio'r technolegau o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn wyladwrus o negeseuon e-bost a chynnwys atodiadau a'r hyn y maent yn gofyn amdano. Er enghraifft, mae ymosodiadau gwe-rwydo yn ceisio cymell unigolion i ddatgelu gwybodaeth sensitif tra bo ymosodiad gwe-forfilo yn cael ei dargedu tuag at uwch swyddogion. Mae'r Cyngor yn tanysgrifio i gyrff a sefydliadau cenedlaethol i dderbyn rhybuddion a diweddariadau mewn perthynas â diogelwch seiber ac mae'n aelod o Cymru Warp ac yn mynychu ei gyfarfodydd, sef cymuned genedlaethol o swyddogion diogelwch TG sy'n rhannu a chyfnewid gwybodaeth a phrofiadau. Yn ychwanegol, bydd yr holl staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelwch seiber a diogelu data trwy'r porth e-ddysgu. Mae'r gwasanaeth TGCh hefyd yn edrych ar gryfhau capasiti i gymryd ymagwedd ragweithiol at fonitro diogelwch TGCh. Gobeithir y bydd y darlun a gyflwynir yn helpu'r Pwyllgor i gael gwell dealltwriaeth o'r peryglon y mae'r Cyngor yn eu hwynebu a hefyd yn sicrhau bod ganddo amrywiaeth o fesurau i rwystro ymosodiadau posib.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaeth a Pherfformiad TG ar y technolegau a ddefnyddir gan y Cyngor i ddelio â'r gwahanol lefelau o fygythiadau a wynebir ganddo, natur yr ymosodiadau a sut mae'r Cyngor wedi llwyddo i amddiffyn ei hun yn erbyn yr ymosodiadau hyn i leihau a / neu osgoi colled a / neu amhariad.

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth a ddarparwyd a chymerodd sicrwydd ohoni. Cyfeiriodd y Pwyllgor yn ôl at y cyfarfod blaenorol lle'r oedd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth wedi nodi bod risg o dorri data wedi'i nodi mewn cysylltiad â'r swyddogaeth 'autocomplete' ar system e-bost y Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor a ddylid anablu'r swyddogaeth hon neu a oes bwriad i wneud hynny.

Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh fod gan 'autocomplete' ei fanteision a'i anfanteision. Gall fod yn ddefnyddiol mewn termau busnes ac er y dylid ei adael ymlaen mae'n golygu bod raid i staff ar y system e-bost ddiweddarau eu manylion yn rheolaidd er mwyn dilysu eu manylion a dangos pwy ydynt.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gwaith yn cael ei wneud i alluogi staff y Cyngor i uwchlwytho llun i'r system e-bost, neu os nad ydynt eisiau darparu llun, gallant ddarparu

cerdyn busnes. Bydd angen i holl staff y Cyngor ddarparu'r naill neu'r llall o'r rhain maes o law.

**Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a nodi bod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd o ddisgrifiad y Swyddogion o'r trefniadau sydd ar waith i amddiffyn y Cyngor rhag y bygythiadau seiber / technolegol y mae'n eu hwynebu.**

## **NI CHYNYGIWYD UNRHYW GAM GWEITHREDU PELLACH**

### **3 DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaethau, adolygiadau a gwblhawyd, camau dilynol a gymerwyd a'r camau yr oedd angen i reolwyr eu rhoi ar waith.

Crynhodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y prif bwyntiau fel a ganlyn -

- Y cwblhawyd 3 adroddiad adolygu archwilio mewnol yn y cyfnod fel y nodwyd ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Arweiniodd dau o'r adroddiadau – sef ar y Gwasanaethau Trwyddedu a'r Dreth Gyngor a Threthi Annomestig – at farn Sicrwydd Sylweddol a Sicrwydd Rhesymol yn y drefn honno. Arweiniodd y trydydd adroddiad ar yr Adolygiad Archwilio Mewnol mewn perthynas â Mân-Ddyledwyr at farn Sicrwydd Cyfyngedig ac yn unol â'r arfer y cytunwyd arni, darparwyd copi o'r adroddiad llawn ar gyfer y Pwyllgor ar wahân i'r rhaglen.
- Cynhaliwyd ail adolygiad dilyn-i-fyny o Ffioedd Rheoliadau Adeiladu – Cyfundrefnau Arolygu a Gorfodi. Er gwaethaf y farn Sicrwydd Rhesymol a ddyfarnwyd yn yr adroddiad, sef barn na fyddai fel arfer yn golygu cynnal adolygiad dilyn-i-fyny ffurfiol, ni wnaed unrhyw gynnydd o ran gweithredu'r camau rheoli a nodwyd yn yr ymweliad dilyn-i-fyny cyntaf. Cadarnhaodd yr ail adolygiad dilyn-i-fyny bod y camau gweithredu wedi'u cymryd yn rhannol mewn perthynas â'r pedair risg a godwyd, a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r holl risgiau. Roedd y graddfeydd blaenoriaeth wedi cael eu hailasesu i gymryd i ystyriaeth y camau a weithredwyd hyd yma. Mae'r Tîm Rheoli Adeiladu wedi dangos cynnydd da o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ac mae'r raddfa yn parhau i fod yn un o Sicrwydd Rhesymol ar gyfer y trefniadau llywodraethu, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol.
- Bod y graff yn adran 5.3 yr adroddiad yn dangos bod y Cyngor wedi gwella ei berfformiad yn raddol o ran gweithredu argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol dros y 12 mis diwethaf, er gwaethaf dirywiad bach yn y perfformiad dros y mis diwethaf.
- Hyd yma, roedd 41% o'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol wedi'i gwblhau ac roedd 31% o'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Oherwydd llithriad sylweddol o waith o 2016/17, ymddeoliad yr Uwch Swyddog Twyll ac absenoldeb hirdymor Uwch Archwiliwr, mae'r adnoddau sydd ar gael i gwblhau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2017/18 wedi gostwng. O ganlyniad, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal asesiad risg gyda'r Pennaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Mae adolygiadau archwilio wedi'u blaenoriaethu i sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu targedu i'r meysydd risg uchaf.
- O bryd i'w gilydd, dylai'r Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl ar gyfer priodoldeb. Yn unol â Blaenraglen Waith y Pwyllgor, roedd y cylch gorchwyl am gael ei ystyried yng

ngyfarfod mis Medi y Pwyllgor. Penderfynwyd gohirio'r adolygiad tan gyfarfod mis Rhagfyr ar ôl cyhoeddi'r canllawiau CIPFA newydd a ddisgwylir ym mis Tachwedd, 2017. Fodd bynnag, mae CIPFA wedi cadarnhau y bydd yn awr yn cyhoeddi'r canllawiau ym mis Rhagfyr, 2017. Felly, argymhellir gohirio'r adolygiad o'r cylch gorchwyl ymhellach tan gyfarfod mis Chwefror, 2018 y Pwyllgor.

Amlinellodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 gyd-destun yr **adroddiad adolygu Sicrwydd Cyfyngedig gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Fân-Ddyledwyr**. Dywedodd y Swyddog fod yr archwiliad wedi'i gynnal yn ystod cyfnod o newid yn yr adran Incwm sydd wedi cael ei hailstrwythuro ers mis Ionawr, 2016. Pwrpas yr ailstrwythuro, ymhlith pethau eraill, oedd sicrhau bod gan yr adain Refeniw adnoddau digonol i weithredu ar gapasiti llawn a bod yr adnoddau wedi eu cydbwysu'n iawn rhwng gwahanol elfennau'r Tîm Refeniw a Budd-daliadau. Mae'r ailstrwythuro wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd penodi dau reolwr newydd ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau o'r tu allan ac i ganiatáu iddynt gael mewnbwn i'r strwythur newydd. Y nod cyffredinol o fewn y Gwasanaeth Adnoddau fu datblygu a gwella systemau ariannol y Cyngor a gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael. Gan fod y datblygiadau yn ychwanegol at swyddi dydd arferol y staff ac oherwydd bod adnoddau ariannol a TG yn gyfyngedig, mae datblygiadau wedi'u blaenoriaethu ac mae gwella'r system dyledwyr wedi cael blaenoriaeth is. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth wedi sicrhau cyllid i wella'r system arian parod fel y gellir casglu mwy o incwm ar-lein cyn darparu gwasanaethau, a fydd yn lleihau nifer yr anfonebau sydd angen eu codi. Felly roedd y gwasanaeth yn ymwybodol o faterion sy'n codi gyda'r system mân-ddyledwyr ac mae'r rheini'n cael sylw ar hyn o bryd. Er gwaethaf yr aneffeithlonrwydd a nodwyd yn y system mân-ddyledwyr, casglwyd 98.9% o'r ddyled gyffredinol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd ac fe wnaeth y pwyntiau canlynol:

- Nododd y Pwyllgor o ran yr adolygiadau archwilio mewnol ar y Gwasanaeth Trwyddedu a'r Dreth Gyngor a Threthi Annomestig, er bod y risgiau a nodwyd yn union yr un fath o ran eu nifer a'u lefel, mae'r raddfa sicrwydd ar gyfer y ddau yn wahanol, gyda'r cyntaf yn darparu Sicrwydd Sylweddol a'r ail yn darparu Sicrwydd Rhesymol yn unig. Nododd Aelodau Lleyg y Pwyllgor y byddent angen mynediad at yr adroddiadau llawn er mwyn gallu deall y rhesymau dros y gwahaniaeth yn y graddfeydd oherwydd nad oedd modd iddynt fedru deall hynny o'r crynodeb a ddarparwyd. Awgrymodd yr Aelodau Lleyg y byddai hynny o gymorth iddynt beth bynnag – ac efallai i'r Pwyllgor – i allu gweld yr holl adroddiadau archwilio mewnol a gwblhawyd i ddeall sut y daethpwyd i'r casgliadau a sut y penderfynwyd ar y graddfeydd sicrwydd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y gall llawer o'r adroddiadau adolygu y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn eu cynhyrchu fod yn hir a chynnwys lefel o fanylder nad yw'r Pwyllgor ei hangen efallai, yn arbennig os yw'r sicrwydd a ddarparwyd o'r meysydd a adolygwyd yn Rhesymol neu'n Sylweddol. Rhaid i'r Pwyllgor sicrhau bod y wybodaeth a dderbynnir yn berthnasol ac yn hwylus iddo, ni ddylai fod mor faith fel ei bod yn tynnu oddi wrth brif gyfrifoldeb y Pwyllgor, sef bodloni ei hun bod system rheolaeth fewnol y Cyngor yn effeithiol o ran rheoli risgiau a nodwyd, gan roi sylw arbennig i unrhyw ddiffygion mewn rheolaeth fewnol yr adroddwyd arnynt. I'r perwyl hwn, rhoddir adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig i'r Pwyllgor ar feysydd lle nodwyd gwendidau sylweddol mewn rheolaeth fewnol fel y gellir sicrhau bod camau i unioni'r gwendidau wedi'u cytuno ac y byddir yn monitro gweithrediad y fath gamau. Fel arall, mae'r

diweddariad chwarterol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch meysydd lle canfuwyd bod y rheolaethau mewnol yn gadarn ac yn gweithredu'n iawn.

- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol, yr ymddengys bod amrywiadau amlwg rhwng y diwrnodau a bennwyd i rai archwiliadau a'r nifer wirioneddol o ddyddiau a dreuliwyd arnynt – roedd yr archwiliad o'r Cynllun Budd-dal Tai a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn enghraifft o hyn gan y neilltuwyd 15 diwrnod ar gyfer gwneud yr archwiliad ond roedd wedi cymryd 23 diwrnod mewn gwirionedd. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y diwrnodau ychwanegol, yn enwedig gan fod y sicrwydd a ddarparwyd yn Rhesymol sy'n awgrymu nad oedd unrhyw gymhlethdodau yr oedd angen amser ychwanegol i'w datrys. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y Cynllun Budd-dal Tai a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn feysydd cymhleth felly mae'r 15 diwrnod a neilltuwyd i'r archwiliad yn amcangyfrif ceidwadol. Nododd y Pwyllgor hefyd fod yr 11.25 diwrnod allan o 15 diwrnod a dreuliwyd ar Barodrwydd yr Adran Rhenti Tai ar gyfer Diwygio Lles yn ymddangos yn ormodol. Dywedodd yr Uwch Archwilydd Mewnol y gallai'r gwasanaeth checio am ddiweddariad ar y sefyllfa hon.
- Nododd y Pwyllgor nad yw'r Cynllun Archwilio yn Atodiad A yn cyfeirio at gamau dilyn-i-fyny; gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad felly ar y broses ar gyfer dyrannu adnoddau i fonitro gweithrediad argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y pennir swp o ddyddiau ar gyfer gwaith dilyn-i-fyny a bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn penderfynu wedyn sut y dylai'r rhain gael eu rhannu ar ôl cymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth.
- O ran yr adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas â Mân-Ddyledwyr, dywedodd y Pwyllgor, er nad oedd gwerth yr anfonebau a gafodd eu dileu ar ddiwedd 2016/17 ond yn 1% o'r incwm, sy'n dal i fod yn swm sylweddol mewn cyfnod o lymder, ei fod yn bryderus y cymerwyd cryn dipyn o amser i gydnabod pa mor aneffeithiol yw'r system. Mae hynny'n awgrymu bod lefel y rheolaethau mewnol sydd ar waith a'r trosolwg ohonynt yn annigonol o ran dod â sylw'r Rheolwyr at ddiffygion mewn elfen bwysig o swyddogaeth codi arian y Cyngor. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod y broses Archwilio Mewnol bellach yn ddigon cadarn i osgoi sefyllfa debyg o aneffeithlonrwydd yn cronni dros amser. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ei fod, ers iddo gael ei benodi i'r swydd, wedi blaenoriaeth ailstrwythuro'r gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau; roedd y system dyledwyr, er nad oedd yn gweithio cystal ag y gallai, yn gweithredu o ran adennill dyled ac felly roedd yn flaenoriaeth is. Ar ôl cwblhau'r ailstrwythuro, gellir gwneud newidiadau i'r system dyledwyr nawr. Yn ogystal, mae systemau ariannol y Cyngor yn cael eu harchwilio a'u profi'n fwy trylwyr nag unrhyw systemau gwasanaeth eraill, sef trwy archwiliad mewnol a hefyd gan archwilwyr allanol fel rhan o'r broses archwilio cyfrifon. Mae'n rhesymol tybio felly bod yr archwilwyr allanol ar y pryd wedi canfod bod y lefel sicrwydd a ddarparwyd gan y system Dyledwyr yn ddigon iddynt ardystio bod y Cyngor yn gwneud cyfrif priodol o'i incwm yn ei gyfrifon neu fel arall byddai'r dystysgrif archwilio wedi nodi'n wahanol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y prosesau ar gyfer adennill dyledion Gofal Cartref a holodd a nodwyd unrhyw arferion gorau mewn meysydd eraill hefyd. Ceisiodd sicrwydd y bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau y gellir casglu incwm cludiant ysgol gan fod y rhaglen ad-drefnu ysgolion yn debygol o wneud y gwaith hwn yn fwy pwysig. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r

Swyddog Adran 151, oherwydd natur ei gleientiaid, fod dyledion Gofal Cartref yn anodd eu hadennill oherwydd nad yw'n opsiwn i roi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth oherwydd na thalwyd amdano. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r Gwasanaeth Cyllid a'r Gwasanaethau Cymdeithasol adolygu trefniadau i sicrhau y sefydlir gweithdrefnau adennill dyledwyr Gofal Cartref. Dywedodd y Swyddog nad oedd yn ymwybodol bod unrhyw ddata meicnodi ar gael mewn perthynas ag adennill dyledion Gofal Cartref. O ran cludiant ysgol, mae'r Gwasanaeth Cyllid yn bwriadu darparu cyfleuster erbyn Medi, 2018 a fydd yn caniatáu i rieni dalu am docyn bws ysgol ar-lein cyn ei dderbyn yn hytrach na'r trefniant presennol lle mae rhieni yn cael eu bilio amdano ar ôl ei dderbyn. Bwriad y system newydd yw lleihau'r angen i fynd ar ôl pobl am beidio â thalu costau cludiant o'r ysgol i'r cartref oherwydd gall gorfodi talu ar y bws ac adennill yr incwm dan sylw fod yn anodd ac yn aml nid yw'n cyfiawnhau'r gost o wneud hynny.

- Nododd y Pwyllgor, oherwydd nifer y swyddogion ar draws ystod o wasanaethau y mae'r adolygiad Mân-Ddyledwyr yn cael effaith arnynt, dylid dynodi un swyddog i oruchwyllo'r cynnydd i sicrhau bod y camau a argymhellir yn cael eu gweithredu'n llawn ac mewn modd amserol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau yn gyfrifol am weithredu a bod y Swyddog Adran 151 yn goruchwyllo.

#### **Penderfynwyd -**

- **Nodi'r cynnydd diweddaraf a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant a derbyn y sicrwydd a ddarparwyd mewn perthynas â'r meysydd a adolygwyd a'r camau a gymerwyd a / neu a gynigiwyd.**
- **Gohirio'r adolygiad o delerau ac amodau'r Pwyllgor nes bod CIPFA wedi cyhoeddi ei ddogfen arweiniad newydd.**

**CAM GWEITHREDU YCHWANEGOL A GYNIGIWDYD: Y Cadeirydd, yr Aelod Portffolio Cyllid a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i gwrdd â dau Aelod Lleyg y Pwyllgor i ystyried y ffordd orau i'w galluogi i gael mynediad at yr ystod o adroddiadau Archwilio Mewnol i'w cynorthwyo yn eu rôl ar y Pwyllgor.**

#### **4. ARCHWILIO ALLANOL: LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd y Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2016/17 ynghyd â chadarnhad o gwblhau archwiliad blynyddol cyfrifon 2016/17 i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Roedd y Llythyr Archwilio yn cadarnhau'r canlynol –

- Bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a'r defnydd o adnoddau
- Bod yr Archwilydd Cyffredinol yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau
- Bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod y gwaith o archwilio'r cyfrifon wedi dod i ben ar 29 Medi, 2017.
- Hyd yma, nad yw gwaith archwilio allanol ar yr ardystiad o hawliadau grant a dychweliadau wedi adnabod materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2017/18 ar gyfer systemau ariannol allweddol.



**Penderfynwyd derbyn a nodi dogfennaeth yr archwilwyr allanol.**

## **NI CHYNYGIWYD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL**

### **5. RHEOLI TRYSORLYS - adolygiad canol blwyddyn**

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor ei ystyried - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, yn cynnwys adolygiad o'r sefyllfa Rheoli Trysorlys ar ganol blwyddyn 2017/18.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 ar y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Bod y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (TMSS) ar gyfer 2017/18 wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2017. Nid oes unrhyw newidiadau polisi i'r TMSS; mae'r manylion a ddarperir yn yr adroddiad adolygu canol blwyddyn yn rhoi diweddariad am y sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd a ddiweddarwyd a'r newidiadau i'r gyllideb a gymeradwywyd eisoes.
- Mae'r tabl yn 5.2 o'r adroddiad yn dangos yr amcangyfrif ar gyfer gwariant cyfalaf o gymharu â'r gyllideb gyfalaf. Mae'r amcangyfrif presennol ar gyfer gwariant cyfalaf ar ei hôl hi o gymharu â'r amcangyfrif gwreiddiol yn bennaf oherwydd yr oedi gyda'r ffyrdd newydd at Wylfa tan y flwyddyn ariannol nesaf a bod Isadeiledd Strategol Caergybi yn dal i ddisgwyl arian WEFO. Fodd bynnag, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i'r adroddiad cyfalaf i'w hadrodd arnynt ar hyn o bryd.
- Mae'r tabl yn 5.4.2.1 o'r adroddiad yn dangos y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (GAC) sef yr angen sylfaenol i fenthycu yn allanol er mwyn ariannu gwariant cyfalaf. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd ychydig ar ei hôl hi o gymharu â'r rhagolygon gwreiddiol ar gyfer y GAC o ganlyniad i'r rhagolygon o danwariant yn y rhaglen ysgolion y 21ain Ganrif gan olygu y bydd llai o fenthycu yn ystod 2017/18. Mae'r tabl hefyd yn dangos y sefyllfa o ran y ddyled ddisgwyliedig (neu derfyn gweithredol) ar gyfer y cyfnod. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor tua £47 miliwn o fewn y terfyn.
- Mae Adran 6 yr adroddiad yn amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â portffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2017/2018. Darperir rhestr lawn o fuddsoddiadau fel ar 30 Medi, 2017 yn Atodiad A i'r adroddiad. Ni chafodd y cyfyngiadau sydd wedi eu cymeradwyo o fewn y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol eu torri yn ystod y chwe mis cyntaf o 2017/18.
- Mae'r GAC arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn £138.1 miliwn. Mae'r Cyngor wedi rhagamcanu benthycu diwedd blwyddyn o £118m a bydd wedi defnyddio £20.1 miliwn o gyllid llif arian yn lle benthycu. Mae hon yn agwedd ddarbodus a chost effeithiol yn yr hinsawdd economaidd bresennol ond bydd angen monitro parhaus petai'r risg o ran yr elw o'r giltiau'n parhau. Er na chafodd unrhyw arian ei fenthycu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, rhagwelir y bydd angen benthycu yn ystod ail hanner y flwyddyn. Mae Paragraff 7.3 yn nodi manylion dau fenthyciad tymor hir gyda'r PWLB a aeddfedodd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Nid oes unrhyw ailbennu dyledion wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.
- Mae paragraff 9 o'r adroddiad yn amlinellu'r gweithgaredd ers diwedd Chwarter 2, yn bennaf y trefniadau a wnaed mewn perthynas â benthycu £5 miliwn gan Tyne and Wear Pension Fund South Shields.
- Mae Adran 11 o'r adroddiad yn darparu diweddariad ar faterion yn ymwneud â TM mewn perthynas â chodau CIPFA diwygiedig a rheoliadau o dan MIFID II – mae'r rhain yn rheoli'r berthynas y bydd gan sefydliadau ariannol sy'n cynnal trafodion benthycu ag awdurdodau

lleol o 3 Ionawr, 2018 ymlaen a'r opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor o ran uwchraddio i statws proffesiynol neu gadw statws cleient adwerthu.

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y sylwadau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor y rhagolygon o'r raddfa log a ddarparwyd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor fel ym Mharagraff 3.1 o'r adroddiad. Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ar ddichonoldeb y rhagolwg a faint y dylai'r Cyngor fod yn dibynnu arno ar gyfer ei ddibenion rheoli trysorlys gan ei fod yn ystyried y bydd cyfradd y banc yn 0.25% ym Mawrth 2019 a'i fod eisoes wedi codi i 0.50% yn Nhachwedd 2017. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 y bydd y rhagolwg yn dylanwadu amseriad benthycy'r Awdurdod (er bod benthyciadau PWLB yn tueddu i fod yn rhai cyfradd llog sefydlog) ac mae i fod yn arwyddol o dueddiadau ac o ganlyniad, mae'n fwy perthnasol i'r benthyciadau tymor hir sydd gan yr Awdurdod. Nid yw ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor yn rhagweld cynnydd sylweddol yn y cyfraddau llog dros amser a bydd eu rhagolygon yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod wrth benderfynu ar yr adeg fwyaf amserol i ymrwymo i fenthyciad. Fodd bynnag, nid yw'n bolisi gan yr Awdurdod i fenthycia yn seiliedig ar y raddfa log oherwydd oni bai ei fod at bwrpas penodol, bydd benthyciad yn costio mwy i'r Awdurdod ei gario nag y gall obeithio ei wneud i fyny ar ffurf enillion ar fuddsoddiad.
- Gofynnodd y pwyllgor am gadarnhad ar yr amrywiad mewn perthynas â'r amcangyfrifon gwreiddiol a'r amcangyfrifon a oedd wedi cael eu hadolygu ar gyfer grantiau cyfalaf. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod yr amrywiad o ganlyniad yn bennaf i'r oedi gyda'r gwaith ar y ffordd newydd i Wylfa; tra roedd darpariaeth yn y cynllun gwreiddiol u i'r gwaith gael ei wneud cyn cyflwyno'r Gorchymyn Caniatâd i Datblygu (DCO) ar gyfer yr adeilad niwclear, mae'r elfen briffyrdd yn rhan annatod o'r DCO yn y cynllun diwygiedig sy'n golygu mai ychydig iawn o'r gwaith caib a rhaw ar y ffordd tuag at Wylfa fydd yn digwydd cyn y rhoddir caniatâd i'r orsaf bŵer niwclear newydd. Bydd y Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd yn ymgymryd â'r gwaith sy'n cael ei ariannu gan Horizon; mae hwn yn cael ei drin fel grant cyfalaf ac er bod y rhaglen priffyrdd newydd wedi llithro i 2018/19 bydd y cyllid ar ei gyfer yn dal i fod ar gael bryd hynny.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch sefyllfa'r cyllid sy'n gysylltiedig â rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif o ystyried bod yr adroddiad yn cyfeirio at ragolwg o danwariant ar y rhaglen gyda'r canlyniad y bydd llai o fenthycia yn ystod 2017/18. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y cyllid ar gyfer y Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif yn cael ei rannu rhwng yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru; mae cyfran yr Awdurdod wedi'i ariannu gan fenthycia tra bod traean o gyfran Llywodraeth Cymru wedi'i ariannu gan grant a dwy ran o dair drwy fenthycia â chymorth h.y. yr Awdurdod yn benthycia a Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol fel rhan o'r setliad blynyddol i dalu am gost yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (MRP) a'r llog. Gall yr Awdurdod ddefnyddio derbyniadau cyfalaf o werthiant asedau ysgol nad oes angen amdanynt mwyach fel rhan o'i gyfran ariannol gan olygu mai dim ond y balans fydd angen iddo ei fenthycia drwy fenthycia di-gymorth h.y. benthycia lle mae'n rhaid i'r Awdurdod ariannu cost yr MRP a'r llog o'i gyllideb ei hun. Os yw'r Awdurdod yn gallu gwneud arbedion drwy sicrhau bod ysgolion sydd wedi cau yn cael eu gwerthu yna gall hynny ostwng ei ymrwymiad benthycia a'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â benthycia.
- Nododd y Pwyllgor bod yn rhaid i raddfa'r gwariant cyfalaf gyflymu er mwyn sicrhau cynnydd mewn perthynas â'r sefyllfa fel yr oedd ym Medi 2017 i'r amcangyfrif presennol. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd hyn yn realistig. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth

(Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151, tra bod cynlluniau cyfalaf yn cymryd peth amser i ddechrau fel arfer, bydd y Gwasanaeth Cyllid yn cynnal trafodaethau â'r rheolwyr prosiect mewn perthynas â sicrhau cynnydd o ran gwariant sy'n arwain at ragolwg gwariant ar y cyd rhwng yr Adran Gyllid 'r Gwasanaeth. Yn hanesyddol, mae gwariant cyfalaf wedi ei bwysoli tuag at ail hanner y flwyddyn ariannol; efallai bod hyn oherwydd nad yw Gwasanaethau yn gallu dechrau gwario tan ddiwedd Chwefror pan fydd y gyllideb gyfalaf wedi ei chymeradwyo - tan hynny, nid oes ganddynt yr awdurdod i wneud hynny. Bydd y Gwasanaeth Cyllid yn edrych i sicrhau nad oes unrhyw gyllid grant yn cael ei golli o ganlyniad i lithriad ar gynlluniau cyfalaf yn enwedig mewn perthynas â rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif sef grant mwyaf yr Awdurdod lle mae angen lefel penodol o wariant. Petai tywydd garw yn atal neu'n achosi oedi i'r gwaith yn ystod camau diwethaf y rhaglen, fel nad yw'r lefel angenrheidiol o wariant wedi digwydd, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y modd y gellir gwneud y mwyaf o'r grant.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad TM canol blwyddyn ar gyfer 2017/18 gyda'r argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith, o ran ariannu cyfran y Cyngor o raglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, bod agwedd ragweithiol yn cael ei mabwysiadu er mwyn sicrhau bod asedau'n cael eu gwerthu'n amserol er mwyn lleihau angen y Cyngor i fenthycu ynghyd â'r costau refeniw sy'n codi o ganlyniad i fenthycu.**

## **NI CHAFODD UNRHYW WEITHREDOEDD YCHWANEGOL EU CYNNIG**

### **6. ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH A'R FFRAMWAITH RHEOLI RISG**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 a oedd yn cynnwys y Polisi a'r Canllawiau Rheoli Risg er ystyriaeth y Pwyllgor.

Adroddodd y Rheolwr Yswiriant a Risg ar ganlyniad yr adolygiad o'r Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg a gafodd ei gynnal gan y Pennaeth Archwilio a Risg a'r Rheolwr Risg ac Yswiriant ar y cyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ystod Chwarter 2. Tynnodd yr adolygiad sylw at feysydd lle gellir gwneud gwelliannau, yn bennaf mewn perthynas â mewnosod prosesau rheoli risg o fewn arferion gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn dod yn rhan annatod o'r drefn o wneud penderfyniadau hysbys yn hytrach na'n ymarfer ticio blwch yn unig, yn ogystal â'r camau sy'n cael eu cymryd eisoes neu sydd eisoes wedi eu gweithredu, er mwyn sicrhau bod y gwelliannau'n digwydd bob amser. Fe wnaeth yr adolygiad hefyd ddarganfod nad yw Aelodau Etholedig a Swyddogion bob amser yn gwbl ymwybodol o'r risgiau perthnasol wrth wneud penderfyniadau. Nid yw Aelodau etholedig ychwaith wedi cael cynnig hyfforddiant rheoli risg er bod rheolwyr canol wedi derbyn yr hyfforddiant

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor, yn dilyn ystyried y Canllawiau Rheoli Risg, bod y ddogfen yn nodi agwedd tuag at risg sy'n ymddangos yn un feichus o ran cymhlethdod a lefel o fanylder. O ganlyniad, nid yw'n ddeniadol i Reolwyr a gallai atgyfnerthu'r syniad o reolaeth risg fel ymarfer tic yn y blwch yn hytrach na fel ymarfer i gael ei weithredu mewn ffordd ystyrlon o safbwynt gweithgareddau dydd i ddydd ac wrth wneud penderfyniadau. Dywedodd y Rheolwr Yswiriant a Risg bod y canllawiau wedi cael eu rhoi at ei gilydd gyda chymorth ymgynghorydd allanol a'u bod wedi cael eu creu ar lefel y cytunwyd yr oedd y Rheolwyr ei hangen ar y pryd; mae fersiwn fwy cryno ar gael ar wefan y Cyngor.
- Yn dilyn y llifogydd diweddar, gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad o'r broses ar gyfer adolygu'r risg petai'r un peth n digwydd eto neu os yw llifogydd yn digwydd eto, y camau y

bwriedir eu cymryd er mwyn lleihau'r effaith ar y Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor wedi dechrau ar y broses gwersi a ddysgwyd yn dilyn y llifogydd; dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 mewn perthynas ag adeilad y Cyngor yn benodol, y bydd yr adolygiad o'r hyn sy'n digwydd yn cynhyrchu log gwersi a ddysgwyd a fydd yn ei dro yn bwydo i mewn i'r gofrestr risg berthnasol.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gadarnhad ynghylch pryd yn y broses gwneud penderfyniadau y daw'r broses Rheoli Risg i rym h.y. a oes risg mewn unrhyw fodd i'r Cyngor o ganlyniad i benderfyniadau a allai fod yn cael eu gwneud ar lefel is. Dywedodd y Rheolwr Yswiriant a Risg bod risgiau'n cael eu hasesu yn unol ag effaith a thebygolrwydd yn erbyn meini prawf gan ddefnyddio graddfeydd disgrifiadol; yn dilyn gwneud yr asesiad, mae wedyn yn fater i'r Rheolwr a'r lefel o awdurdod a sgôp i weithredu sydd gan yr unigolyn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y penderfyniadau a'r cyfrifoldeb yn gymesur â'r swydd, felly nid oes disgwyl i benderfyniadau a gymerir ar lefel is gael effaith ar y gwasanaeth.
- Nododd y Pwyllgor bod Rheoli Risg yn rhan hanfodol o weithgareddau'r Cyngor, mae felly'r un mor bwysig bod y broses Rheoli Risg yn cael ei chyfleu yn glir i staff fel eu bod yn gwybod beth sy'n ddisgwylidig ohonynt. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd felly bod staff yn cael cyfarwyddyd priodol ar reoli risg ac asesu risg fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Dywedodd y Rheolwr Yswiriant a Risg bod y neges am bwysigrwydd rheoli risg wedi ei rhannu â Phenaethiaid Gwasanaeth ac y gwnaed cytundeb hefyd y byddant yn cyfarfod â'r Rheolwr Yswiriant a Risg ddwywaith y flwyddyn er mwyn adolygu'r cofrestr gwasanaeth - cafwyd y diweddariad mwyaf diweddar yn yr Hydref. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod ail-leoli swydd y Rheolwr Yswiriant a Risg fel bod y swydd yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol i'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi rhoi mwy o awdurdod i'r rôl gan felly godi proffil rheoli risg o fewn y Cyngor. Mae'r Rheolwr Yswiriant a Risg bellach yn mynychu cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth bob chwarter ac yn gallu diweddarau'r UDA ar unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth gan y gwasanaethau.
- Nododd y Pwyllgor ymhellach nad oedd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) wedi adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod hanner cyntaf 2017. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd y Swyddogion bod Rheoli Risg bellach wedi ei wreiddio'n gadarn o fewn arferion yr UDA a Phenaethiaid Gwasanaeth a gofynnodd am gadarnhad hefyd o'r camau a fyddai'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau mai dyma fydd y sefyllfa yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 161 y bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael diweddariadau rheolaidd ar reoli risg ac os, fel rhan o'r adroddiadau hynny, y bydd y Pennaeth Archwilio a Risg a/neu'r Rheolwr Yswiriant a Risg yn darganfod nad yw'r UDA a/neu'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r prosesau sydd wedi eu sefydlu, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael ei hysbysu.

**Penderfynwyd bod y Pwyllgor, wedi ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sicrwydd a roddwyd ar y materion a godwyd ar lafar, yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymryd sicrwydd, er bod gwaith ar ôl i'w wneud mewn perthynas â sefydlu risg yn gadarn ledled y Cyngor, bod cynnydd wedi'i wneud a bod hynny'n parhau.**

## **NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL**

### **7. 2017/18 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd Blaen Raglen Waith y Pwyllgor hyd at Medi 2018 i'r Pwyllgor ar gyfer ei hadolygu a'i ystyried.

Mewn perthynas â Chynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant, cadarnhaodd y Cynghorydd Richard Griffiths, cynrychiolydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panel Gwella Gwasanaethau Plant bod adroddiadau rheolaidd ar gynnydd yn cael eu gwneud i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a bod y cynnydd yn rhedeg i'r amserlen ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd derbyn y Rhaglen Waith fel y'i cyflwynwyd.**

**NI CHYNIGIWDYD UNRHYW GAMAU YCHWANEGOL.**

**Y Cynghorydd Peter Rogers  
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
<b>Adrodd i:</b>	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
<b>Dyddiad:</b>	13 Chwefror 2018
<b>Pwnc:</b>	Diweddariad Archwilio Mewnol
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b>	
<p>Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am waith a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.. Mae'n caniatáu i'r Pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae'n rhoi crynodebau o adroddiadau Archwilio Mewnol fel y gall y Pwyllgor gael sicrwydd ynghylch gwasanaethau a meysydd corfforaethol eraill y Cyngor.</p>	

## 1. Rhagarweiniad

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa fel yr oedd ar 26 Ionawr 2018 ynghylch:

- Adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd ers 7 Medi 2017
- Gwaith dilyn-i-fyny a wnaed ar adroddiadau archwilio mewnol blaenorol
- Gweithredu camau rheoli
- Y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2017/18
- Diweddariadau penodol y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
- Adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn nodi'r cynnydd a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran ei ddarpariaeth gwasanaeth, darparu sicrwydd, yr adolygiadau a gwblhawyd a pherfformiad ac effeithiolrwydd y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant. Yn ogystal gofynnir i'r Pwyllgor benderfynu a oes angen sicrwydd pellach arno ynghylch adroddiadau archwilio.

2.2 Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo gohirio'r adolygiad o'i delerau ac amodau hyd nes y bydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi cyhoeddi ei ddogfen arweiniad newydd.



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

# Diweddariad Archwilio Mewnol 2018/19

Chwefror 2018

---

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**  
**Head of Audit & Risk**



## Adroddiadau Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar

1. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar, gan gynnwys y Raddfa Sicrwydd gyffredinol a nifer y Materion / Risgiau a godir yng nghynllun gweithredu'r adroddiad.
2. Rwyf wedi ystyried sylwadau'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod Rhagfyr 2017 mewn perthynas â'r anghysondeb o ran y graddfeydd sicrwydd a roddir ac, yn sgil hynny, wedi darparu mwy o fanylion am bob un o'r archwiliadau isod. Mae hyn yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor fel y gall aelodau ddeall y rheswm am y raddfa sicrwydd.
3. Rydym wedi cwblhau pump o adroddiadau yn y cyfnod hwn a cheir crynodeb ohonynt isod:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Catastroffig	Uchel	Cymedrol	Isel	Cyfanswm
Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (Adroddiad Dros Dro)	Rhesymol	0	0	3	0	3
Gwariant Cyfalaf	Sylweddol	0	0	0	0	0
Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Credyd Cynhwysol	Rhesymol	0	3	7	1	11
Rhaglen Cefnogi Pobl	Sylweddol	0	0	0	0	0
Cyfeirio – Gordaliadau Cyflogres	d/b	0	0	0	0	0

## Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) (Adroddiad Dros Dro)

Sicrwydd Rhesymol	Risgiau / Materion	
	0	Catastroffig
	0	Uchel
	3	Cymedrol
0	Isel	

- Pwrpas ein harchwiliad oedd darparu sicrwydd ynghylch a oedd y Cyngor yn barod i weithredu newidiadau dan GDPR ac a fydd mewn sefyllfa i gydymffurfio erbyn 25 Mai 2018. Byddwn yn cyflwyno adroddiad dilyn-i-fyny yn ystod 2018/19.
- Mae uwch reolwr y Cyngor wedi cael gwybod am y rheoliad newydd ac mae Pennaeth Busnes y Cyngor/yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) wedi cyflwyno adroddiad i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae Cynllun Gweithredu Corfforaethol a Chynllun Gweithredu Fesul Cam wedi cael ei sefydlu ar gyfer uwch reolwyr er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi sylw i GDPR. Er bod y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol yn rheoli'r Cynllun Gweithredu Corfforaethol, nid yw'n cynnwys dyddiadau targed ac atebolrwydd ac o'r herwydd, mae risg na fydd modd ei fonitro'n effeithiol er mwyn sicrhau cynnydd a'i gwblhau erbyn 25 Mai 2018.
- Ym mis Tachwedd 2017, dim ond y Gwasanaeth Dysgu oedd wedi amlygu'r risg na fyddai gweithgareddau prosesu data efallai'n cwrdd â'r gofynion dan y Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer Gwarchod Data gyda hynny'n arwain at ddirwyon ariannol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae risg nad yw'r gwasanaethau eraill wedi ystyried GDPR fel rhywbeth risg uchel y mae angen rhoi blaenoriaeth iddo sy'n golygu nad yw camau gweithredu wedi cael eu blaenoriaethu erbyn y dyddiad cydymffurfio.
- Wedi ystyried y gwaith paratoadol a wnaed hyd yma, gallwn roi '**Sicrwydd Rhesymol**' ynghylch paratoadau'r Cyngor ar gyfer GDPR. Mae hyn yn seiliedig ar i wasanaethau fedru bodloni gofynion y cynllun gweithredu yn unol â'r dyddiadau targed, yn arbennig cam 2 y cynllun gweithredu lle gofynnir i wasanaethau fapio eu data erbyn Mawrth 2018. Mewn achosion lle na fedrir cwblhau'r cynllun o fewn yr amserlen ofynnol, bydd raid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael ei weithredu yn ôl y flaenoriaeth, h.y. nodi'r risgiau mwyaf i wybodaeth bersonol a gweithredu GDPR yn y drefn honno.
- Cafwyd hefyd nad oedd y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol wedi cylchredeg gwybodaeth ynghylch cydymffurfio gyda GDPR i ysgolion/Pennaethiaid ysgolion. Nid oedd hyn wedi ei gynnwys fel blaenoriaeth yn y cynllun corfforaethol oherwydd prinder adnoddau. Mae ysgolion yn sefydliadau ar wahân sy'n gweithredu fel cyrff annibynnol dan y rheoliadau newydd a bydd angen iddynt sefydlu eu trefniadau cydymffurfiaeth eu hunain. Oherwydd nad yw'r ysgolion wedi cael eu cynnwys yn y cyfathrebiadau corfforaethol ar GDPR, mae risg nad yw ysgolion yn ymwybodol o'r rheoliadau a'r gofynion mewn perthynas â chydymffurfio gyda GDPR ac na fydd modd iddynt wneud y paratoadau erbyn y dyddiad cydymffurfio. Bydd y mater hwn yn destun archwiliad mewnol ar wahân yn ystod 2018/19.

## Gwariant Cyfalaf

Sicrwydd Sylweddol	Risgiau / Materion	
	0	Catastroffig
	0	Uchel
	0	Canolig
0	Isel	

10. Pwrpas yr archwiliad oedd darparu sicrwydd ynghylch llywodraethiant y rhaglen gyfalaf, y systemau ar gyfer asesu, cymeradwyo a chyllido prosiectau cyfalaf, gweithdrefnau rheoli risg, monitro perfformiad a threfniadau adrodd a systemau at gyfer adolygu a chysoni cyfrifon terfynol contractau a chael ad-daliadau mewn perthynas ag unrhyw gyllid y mae modd ei adnennill.
11. Mae'r Cyngor wedi datblygu strategaeth gyfalaf er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn modd effeithlon ac effeithiol. Mae'r gweithdrefnau'n caniatáu hyblybrwydd, yn amod ar gael caniatâd ffurfiol, ac mae'r Cyngor ag arian wrth gefn er mwyn rhoi sylw i flaenoriaethau sy'n esblygu. Mae'r Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r Cynllun Cyfalaf bob blwyddyn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb.
12. Roedd penderfyniadau a wnaed o ran gwariant cyfalaf yn y cyfnod dan sylw yn cydymffurfio â dangosyddion a throthwyon darbodus y Cyngor.
13. Mae yna raglen barhaus o fonitro diweddariadau ariannol. Yn ddiweddar, sefydlodd y Cyngor Banel Sgritini Cyllid fel panel parhaol ac is-grŵp o'r Pwyllgor Sgritini Corfforaethol. Er nad yw'r trefniadau'n derfynol, bydd rhaglen waith y Panel yn cynnwys craffu gwariant yn erbyn proffil y gyllideb yn chwarterol a chraffu ymateb y Pwyllgor Gwaith i'r trefniadau ar gyfer monitro'r gyllideb.
14. Mae adroddiadau i'r Pwyllgor Sgritini ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn cynnwys diweddariadau ar gyfer prosiectau allweddol gan gynnwys prosiectau cyfalaf mawr ac asesiad o unrhyw risgiau o ran cyflawni pob cynllun. Ceir sicrwydd yn yr adroddiad bod y ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Coffforaethol yn goruchwylio'r rhaglenni a'r prosiectau allweddol y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Asedau Tir ac Adeiladau er mwyn sicrhau ymagwedd gydlynol tuag at reoli asesau ac alinio asedau gyda'r ddarpariaeth o wasanaethau rŵan ac yn y dyfodol.
15. Mae achosion busnes yn cefnogi'r holl brosiectau cyfalaf ac yn cynnwys manylion am yr holl werthusiadau o opsiynau a gynhaliwyd.
16. Mae proses ar gyfer adolygu a chysoni'n rheolaidd yr holl gyfrifon terfynol ar gyfer contractau sy'n werth mwy na £250k.
17. Ni chodwyd unrhyw risgiau fel rhan o'r adolygiad archwilio hwn. O'r herwydd, a chan gymryd yr holl ffactorau i ystyriaeth, gallwn roi '**Sicrwydd Sylweddol**' mewn perthynas â llywodraethiant a rheoli risg a threfniadau ar gyfer Gwariant Cyfalaf.

## Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Credyd Cynhwysol

Sicrwydd rhesymol	Risgiau / Materion	
	0	Catastroffig
	3	Uchel
	7	Canolig
1	Isel	

18. Pwrpas yr archwiliad hwn oedd darparu sicrwydd ynghylch parodrwydd Adain Rhenti Tai y Cyngor ar gyfer cyflwyno Credyd Cynhwysol. Ni wnaethom edrych ar effaith Credyd Cynhwysol ar y strwythur corfforaethol. Byddwn yn adolygu Strategaeth Diwygio Lles y Cyngor ar wahân yn ystod 2018/19, a fydd yn edrych ar effeithiau diwygio lles ac ymateb y Cyngor iddynt, gan gynnwys eitemau megis y Strategaeth Atal Tlodi, y Polisi Dyledion Corfforaethol a'r Fframwaith Diwygio Lles.
19. Yn raddol, mae Credyd Cynhwysol yn disodli'r 6 budd-dal cyfredol sy'n seiliedig ar brawf modd a bwriedir iddo symleiddio'r system fudd-daliadau a rhoi mwy o anogaeth i bobl weithio. Caiff ei weithredu'n llawn yn Ynys Môn ym Mehefin 2018. Bydd y niferoedd sy'n derbyn y budd-dal hwn yn isel yn y tymor byr, ond mae dadansoddiad a wnaed gan ymgynghorwyr allanol ('Policy in Practice', Mai 2017) yn amcangyfrif y bydd o leiaf 3,774 o aelwydydd yn Ynys Môn yn derbyn y budd-dal newydd pan fydd wedi ei weithredu'n llawn.
20. Y dyledion rhent cyfredol ar gyfartaledd fesul tenant yw £245. Petaent yn dyblu yn y modd a awgrymir<sup>1</sup>, byddai dyledion rhent yn codi i £490, gan olygu cynnydd o ychydig dros £1.1m yng nghyfanswm y dyledion, gan gynnwys dyledion blaenorol.
21. Cyngor Sir y Fflint oedd yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gychwyn gweithredu Credyd Cynhwysol flwyddyn yn ôl ac mae ganddo werth £354,000 o ddyledion rhent gan denantiaid sy'n derbyn y budd-dal newydd.
22. Mae polisi Dyledion drafft ar gael er nad oes unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â'r modd o ddelio gyda thenantiaid Credyd Cynhwysol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â diogelu a thaclo tlodi, yn ychwanegol at gasglu incwm rhent a dyledion oherwydd yr oedi gyda dyfarnu a derbyn taliadau.
23. Mae yna bum wythnos o fwlch ar hyn o bryd rhwng yr amser y bydd pobl yn derbyn eu hen-fuddaliadau a Chredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, mae angen hefyd i hawlwr gyflwyno ceisiadau cywir yn y lle cyntaf er mwyn lleihau unrhyw oedi o ran derbyn taliadau. Anogir ceisiadau am daliadau ymlaen llaw lle mae hynny'n angenrheidiol er mwyn pontio'r bwch/oedi gyda dyfarnu Credyd Cynhwysol a derbyn taliadau

---

<sup>1</sup> Mae adroddiad Welfare Weekly gyda'r pennawd "Universal Credit has pushed 85% of claimants in council housing into rent arrears" yn awgrymu bod dyledion rhent hawlwr Credyd Cynhwysol sy'n byw mewn tai Cyngor wedi bron â dyblu o £321 i £615.

oherwydd bydd ceisiadau am daliadau ymlaen llaw yn cael eu derbyn hyd at 100% o'r dyfarniad disgwylidig.

24. Mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu Cynllun Gweithredu Diwygio Lles a Chynllun Gweithredu ar wahân ar gyfer y Gwasanaethau Tai ar baratoi am Gredyd Cynhwysol er bod absenoldeb dros dro uwch reolwr yn rhoi pwysau ychwanegol mewn perthynas â chyflawni gofynion y ddau gynllun.
25. Ar hyn o bryd, nid yw tenantiaid yn cael eu proffilio ac nid oes strategaeth gwasanaeth chwaith ar gyfer nodi cleientiaid bregus. Mae risg na fydd tenantiaid yn cael eu nodi fel y gall y Gwasanaethau Tai dargedu cleientiaid bregus mewn modd rhagweithiol cyn cyflwyno'r cynllun gyda hynny o bosib, yn golygu cynnydd yn y dyledion a mwy o bwysau ynghyd â'r posibilrwydd y bydd y Cyngor yn colli arian. Mae diffyg cyfleuster proffilio yn golygu hefyd bod y Cyngor yn llai tebygol o fedru mesur a darogan yn gywir effaith bosib Credyd Cynhwysol ar Renti Tai.
26. Mae oedi gweinyddol o ran prosesu taliadau yn cynyddu'r risg o bwysau ar yr Adain Adennill, gyda'r posibilrwydd y bydd hynny'n gwastraffu adnoddau'r Cyngor. Efallai y bydd camgymeriadau o ran y dyledion mewn cyfrifon unigol gyda hynny'n sbarduno prosesau adennill ac yn achosi niwed i enw da'r Cyngor.
27. Nid yw'r chyfluniad presennol y system Rhenti Tai yn adlewyrchu polisi'r Cyngor. O ganlyniad, gwastraffir adnoddau'n adolygu cofnodiadau di-angen ac oni fydd hyn yn cael ei ddatrys cyn cyflwyno'r cynllun, mae risg y bydd y system yn aneffeithiol o safbwynt adennill dyledion yn brydlon gan gynyddu'r pwysau ar adnoddau, cynyddu dyledion rhent ac achosi colled ariannol o bosib i'r Cyngor. Mae risg hefyd na fydd modd i reolwyr nodi'r materion gwirioneddol y mae angen eu hadolygu.
28. Yn wyneb yr uchod a'r gwaith paratoi sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaethau Tai ar gyfer cyflwyno'r budd-dal newydd, gallwn ddarparu '**Sicrwydd Rhesymol**' mewn perthynas â pharodrwydd y Gwasanaethau Tai ar gyfer Credyd Cynhwysol o safbwynt Rhenti Tai. Rydym o'r herwydd wedi codi 11 o Faterion / Risgiau sydd angen sylw gan reolwyr.

## Rhaglen Cefnogi Pobl

Sicrwydd Sylweddol	Risgiau / Materion	
	0	Catastroffig
	0	Uchel
	0	Canolig
0	Isel	

29. Mae Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r Grant Cefnogi Pobl yn flynyddol. Mae'r Cyngor wedi derbyn £2.6m y flwyddyn; mae'r swm hwn wedi ei gadarnhau ar gyfer 2018/19.
30. Mae'r trydydd sector ac adeiniau eraill yn y Cyngor yn darparu gwasanaethau. Dangosodd y profion fod contractau yn cael eu rheoli'n briodol. Er bod profion archwilio mewn perthynas â gweithgareddau caffael wedi eu cyfyngu i brofion lefel uchel yn unig, canfuwyd y gofynnwyd am ganiatâd i ohirio rhai ymarferion caffael oherwydd eu cymhlethodod a newidiadau i'r gwasanaethau a bod y caniatâd hwnnw wedi ei roddi. Mae proses wedi ei sefydlu i sicrhau bod taliadau'n cael eu monitro yn erbyn y gyllideb. Yn gyffredinol, cadarnhawyd bod cydymffurfiaeth gyda thelerau ac amodau'r grant. Roedd y Tîm Cefnogi Pobl yn cydnabod nad oedd rhai darpariaethau a oedd yn ymwneud ag anableddau dysgu yn gymwys i dderbyn y Grant Cefnogi Pobl ac mae wedi cymryd camau i roi sylw i'r mater hwn.
31. O ganlyniad, gallwn ddarparu '**Sicrwydd Sylweddol**' mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer gweinyddu a rheoli'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Nid ydym wedi codi unrhyw Faterion / Risgiau er sylw'r rheolwyr.

## Cyfeiriad – Gordaliad Cyflogres

32. Rhoes y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg wybod i'r adain Archwilio Mewnol bod aelod o staff a gyflogwyd i weithio fel glanhawraig wedi parhau i dderbyn cyflog er gwaethaf y ffaith bod y sefydliad wedi cau ac wedi cael ei werthu.
33. Canfuwyd nad oedd y lanhawraig wedi derbyn rhybudd ffurfiol gan y Gwasanaeth neu AD bod ei contract wedi dod i ben. Daeth ymchwiliadau i'r casgliad nad oedd y weithwraig wedi twyllo'n fwriadol ac mai cnewyllyn y mater oedd diffyg eglurder o ran pwy oedd yn gyfrifol am reoli'r lanhawraig ac amryfusedd ar ran rheolwr. Mae AD wedi hysbysu'r adain Archwilio Mewnol bod ymgyrch ar y gweill i ddod â'r holl lanhawyr dan reolaeth y Gwasanaethau Eiddo er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n gyson a bod eu gwaith a'u presenoldeb yn cael eu monitro.
34. Gan fod y weithwraig wrthi'n talu'r gordaliad yn ôl, nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol y tro hwn. Fodd bynnag, cynghorwyd y Gwasanaeth i ystyried a yw ei brosesau cyfredol ar gyfer monitro'r gyllideb yn rhoi sylw i'r risg y caiff taliadau anghywir eu gwneud i staff wedi iddynt adael y Cyngor neu'r gwasanaeth.

## Dilyn-i-fyny adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol

35. Ar hyn o bryd, rydym yn dilyn i fyny yr holl adroddiadau gyda sgôr sicrwydd 'Cyfyngedig' neu is.
36. Mae un adroddiad 'Sicrwydd Cyfyngedig' wrthi'n cael ei ddilyn i fyny ar hyn o bryd ac fe adroddir arno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhelir ym mis Ebrill:
- Cludiant Ysgol
37. Rydym wedi cwblau 6 o adolygiadau dilyn-i-fyny yn ystod y cyfnod hwn:

Teitl	Dilyn i Fyny	Cynnydd	Lefel Sicrwydd	Catastroffig	Uchel	Canolig	IseI	Cyfanswm
Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau	2	Gwael	Cyfyngedig	0	3	2	0	5
Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Chynllun Benthycu Hunan-adeiladu	2	Rhesymol	Rhesymol	0	1	1	0	2
Tai Gofal Ychwanegol – Trefniadau Comisiynu (Adolygiad Dilyn-i-fyny Cyntaf)	1	Da	Sylweddol	0	0	0	0	0
Safonau Diogelwch y Diwydiant Cardiau Talu	1	IseI	Cyfyngedig	0	6	4	1	11
Gorchmynion Llys Gofal Plant	1	Rhesymol	Cyfyngedig	1	3	3	1	8
Fframwaith Caffael Corfforaethol	1	Da	Cyfyngedig	1	1	9	1	12

## Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau (Ail Adolygiad Dilyn-i-fyny)

Cynnydd Gwael	Materion / Risgiau Gwreiddiol	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw (Adolygiad Dilyn-i-fyny Cyntaf)	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw (Ail Adolygiad Dilyn-i-fyny)
	Dyddiad yr Adroddiad	Medi 2014	Ionawr 2015
Sicrwydd	Coch	Coch	Cyfyngedig
Catastroffig	7	5	0
Uchel			3
Canolig	6	6	2
Isel	2	1	0

38. Cynhaliwyd adolygiad gennym yn wreiddiol o'r rheolaeth dros fynediad rhesymegol a gwahanu dyletswyddau fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Blyneddol yn 2014/15. Roedd yr adolygiad yn rhoi sylw i'r modd y caiff y rhestrau cymwysiadau a'r systemau cyfrifiadurol a weithredir gan y Cyngor eu cynnal a'u cadw; a oedd y cymwysiadau a'r systemau a gaffaelwyd yn cwrdd â gofynion y Cyngor; gwahanu dyletswyddau yn briodol a rheoli hawliau mynediad defnyddwyr.
39. Arweiniodd ein hadolygiad cyntaf at ddyfarniad 'Coch', sy'n cyfateb i 'Sicrwydd Cyfyngedig' dan y dull archwilio newydd. Yn dilyn yr adolygiad, gwnaed 15 o argymhellion ac un awgrymiad.
40. Cynhaliwyd adolygiad dilyn-i-fyny yn 2015 gyda hwnnw eto'n arwain at ddyfarniad 'Coch' a chadarnhawyd bod 12 o argymhellion yn parhau i fod angen sylw.
41. Cadarnhaodd ein ail hadolygiad dilyn-i-fyny bod 7 o'r 12 argymhelliad a oedd yn parhau i fod angen sylw wedi cael eu gweithredu neu eu disodli a bod 5 wedi cael eu gweithredu'n rhannol.
42. Mae'r risgiau 'Mawr' sy'n parhau i fod angen sylw yn cynnwys tystiolaeth bod staff yn derbyn polisïau TGCh a materion yn ymwneud â gwahanu dyletswyddau.
43. Mae'r argymhellion hynny a aseswyd fel rhai nad oeddynt wedi cael eu gweithredu'n llawn wedi cael eu diwygio yn unol â'r dull archwilio newydd o godi Materion a Risgiau, sydd yn cyd-fynd â'r matrices o risgiau corfforaethol.
44. Oherwydd bod y risgiau wedi bod angen sylw ers cymaint o amser, mae'r Cyngor wedi gwneud '**cynnydd gwael**' o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt ar gyfer rhoi sylw i'r holl argymhellion archwilio ac o ganlyniad, ac oherwydd natur y risgiau sy'n parhau i fod angen sylw, mae'r lefel sicrwydd yn parhau i fod yn '**Gyfyngedig**'. O'r herwydd, byddwn yn parhau i fonitro'r risgiau sy'n weddill er mwyn sicrhau eu bod yn cael sylw.



## Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Chynllun Benthyciadau i Hunan-adeiladu (Ail Archwiliad Dilyn-i-fyny)

Cynnydd Rhesymol	Materion / Risgiau Gwreiddiol	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw (Archwiliad Dilyn-i-fyny Cyntaf)	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw (Ail Archwiliad Dilyn-i-fyny)
	Dyddiad yr Adroddiad	Rhagfyr 2015	Rhagfyr 2016
Sicrwydd	Coch	Coch	Rhesymol
Catastroffig Uchel	3	3	0
Canolig	11	5	1
Isel	7	4	0

45. Cynhaliwyd adolygiad gennym o'r Cynllun Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a Benthyciadau ar gyfer y Cynllun Adeiladu fel rhan o Gynllun Archwilio 2014/15. Yn yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015, cafwyd graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig'.
46. Ers yr adolygiad dilyn-i-fyny diwethaf, ac yn unol â'r ymagwedd newydd tuag at archwilio mewnol, mae'r argymhellion wedi cael eu disodi gan Faterion / Risgiau. Erys un risg 'Fawr', sef mae'n bosibl nad yw'r Cyngor yn cyfrif yn llawn am incwm sy'n gysylltiedig â'r symiau cymudol sy'n daladwy. Mae'r Rheolwr Busnes Tai a'r Rheolwr Rheoli Datblygiadau Cynllunio yn gweithio gyda'i gilydd i roi sylw i'r mater hwn erbyn diwedd Ionawr 2018.
47. Mae'r Cyngor wedi gwneud '**cynnydd rhesymol**' o ran rhoi sylw i'r risgiau archwilio. Gan gymryd i ystyriaeth y materion a nodwyd yng ngweddill yr adroddiad, mae'r lefel sicrwydd wedi codi i '**Sicrwydd Rhesymol**'.

## Tai Gofal Ychwanegol – Trefniadau Comisiynu (Archwiliad Dilyn-i-fyny Cyntaf)

Cynnydd Da		Materion / Risgiau Gwreiddiol	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw
	Dyddiad yr Adroddiad	Rhagfyr 2016	Rhagfyr 2017
	Sicrwydd	Cyfyngedig	Sylweddol
	Catastroffig	1	0
	Uchel	3	0
	Canolig	2	0
	Isel	0	0

48. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau comisiynu mewn perthynas â'r uned Tai Gofal Ychwanegol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn 2016/17. Yn yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, cafwyd graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig'.
49. Mae ein hadolygiad yn cadarnhau bod rheolwyr wedi rhoi sylw i'r chwe argymhelliad neu wedi sefydlu prosesau er mwyn sicrhau y byddant yn cael sylw pan fydd y sefyllfa'n codi eto yn y dyfodol. Mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu cynnwys mewn Cofnod Gwersi a Ddysgwyd.
50. Mae'r Cyngor wedi gwneud '**cynnydd da**' o ran rhoi sylw i'r Materion / Risgiau ac o ganlyniad mae'r raddfa sicrwydd wedi codi i '**Sicrwydd Sylweddol**'.

## Cydymffurfiaeth gyda Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (Archwiliad Dilyn-i-fyny Cyntaf)

Ychydig iawn o gynnydd		Materion / Risgiau Gwreiddiol	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw
	Dyddiad yr Adroddiad	Medi 2016	Ionawr 2018
	Sicrwydd	Cyfyngedig	Cyfyngedig
	Catastroffig	0	0
	Uchel	12	6
	Canolig	7	4
	Isel	0	1

51. Cynhaliwyd arolwg gennym o gydymffurfiaeth gyda Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu (PCI DSS) yn ystod 2016/17. Yn yr adroddiad terfynol a gyflwynwyd y mis Ebrill 2016, rhoddwyd graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig'.
52. Er mai ychydig o gynnydd a wnaed, mae ein hadolygiad dilyn-i-fyny wedi cadarnhau bod cynllun i roi sylw i'r materion sydd angen sylw a lle mae gweithredu wedi digwydd, mae'r gostyngiad yn y risg hefyd wedi cael ei gymryd i ystyriaeth.
53. Gofynnodd y Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau am gymorth TGCh er mwyn gweithio tuag at gydymffurfiaeth gyda PCI DSS. Fodd bynnag, nid oedd gan y Gwasanaeth TGCh yr adnoddau i gynorthwyo yn hyn o beth, er bod y Gwasanaeth TGCh yn cynorthwyo i fapio'r amgylchedd cardiau talu.
54. Prynwyd diweddariad ar gyfer y system rheoli incwm a bydd yn cael ei weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r diweddariad hwn â nodweddion newydd a fydd yn cwrdd â gofynion PCI DSS ac o'r herwydd, penderfynwyd gohirio'r gwaith hyd oni fydd hyn wedi'i gwblhau ac yna gaffael gwasanaethau Aseswr PCI DSS er mwyn creu cynllun gweithredu i weithio tuag at gydymffurfiaeth.
55. Mae'r angen i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion PCI DSS wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Cyflawni'r Adran Adnoddau ar gyfer 2017/18 gyda tharged i "gwblhau adolygiad o'r gydymffurfiaeth ar hyn o bryd a llunio cynllun gweithredu" ar gyfer y flwyddyn. Mae wedi ei gynnwys hefyd yng nghofrestr risg y gwasanaeth ac wedi cael ei drafod yn fanwl yn ystod yr adolygiad o Gofrestr Risg y gwasanaeth Adnoddau.
56. Gan mai '**ychydig iawn o gynnydd**' a wnaeth y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r Materion / Risgiau, erys y raddfa'n un '**Sicrwydd Cyfyngedig**'. Byddwn yn ailasesu yn ystod mis Hydref 2018 er mwyn monitro cynnydd gyda rhoi sylw i'r risgiau.

## Gorchmynion Llys Gofal Plant dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (Adolygiad Dilyn-i-fyny cyntaf)

Cynnydd Rhesymol		Materion / Risgiau Gwreiddiol	Materion / Risgiau a oedd yn parhau i fod angen sylw
	Dyddiad yr Adroddiad	Ionawr 2017	Ionawr 2018
	Sicrwydd	Cyfyngedig	Cyfyngedig
	Catastroffig	5	1
	Uchel	8	3
	Canolig	13	3
	Isel	3	1

57. Cafodd adolygiad o'r broses mewn perthynas ag achosion llys gofal plant dan yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ei gynnal fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol yn 2016/17. Yn yr adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017, roddwyd graddfa 'Sicrwydd Cyfyngedig'.
58. Mae symud plentyn oddi wrth ei rieni yn hanfodol mewn rhai achosion er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y plentyn. Protocol yw'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) i geisio lleihau oedi dianghenraid mewn achosion yn y llys teulu.
59. Cyhoeddwyd adroddiad ar adolygiad AGGCC o'r Gwasanaethau Plant ym mis Mawrth 2017 ac roedd nifer o ganfyddiadau difrifol a rhai canfyddiadau cadarnhaol. Mae'r Gwasanaeth wedi cynhyrchu cynllun gwella ac mae'n cymryd camau i'w weithredu ar hyn o bryd.
60. Yn ein hadolygiad dilyn-i-fyny, cadarnhawyd bod 11 o'r 29 o argymhellion a wnaed wedi cael eu gweithredu hyn yma ac 14 arall wedi cael eu gweithredu'n rhannol.
61. Ers cychwyn yr archwiliad gwreiddiol yn 2016, bu trosiant staff sylweddol ac mae'r gwasanaeth wedi cael anhawster llenwi rhai swyddi. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth cyfredol wedi bod yn ei swydd ers 27 Tachwedd 2017. Gweithredwyd system TG newydd yn Awst 2017 yn lle'r hen system RAISE gyda gwaith yn cael ei wneud i sicrhau trosglwyddiad llyfn o'r naill system i'r llall.
62. Mae'r Gwasanaeth wedi cael ei ailstrwythuo yn ystod y flwyddyn gyda'r nod o gael Arweinwyr Ymarfer yn gyfrifol am dri i bedwar o Weithwyr Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod ganddynt well mynediad at eu rheolwyr sy'n golygu eu bod yn cael cyngor yn gynt ac yn cael eu cefnogi a'u goruchwylio'n fwy digonol. Yn ogystal, cymeradwywyd Fframwaith Sicrhau Ansawdd gyda'r nod o ddarparu ymarfer proffesiynol diogel; cefnogi'r plant/oedolion iawn yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn; asesu a yw'n gwneud gwahaniaeth o ran gwella ymarfer; darparu cyd-destun proffesiynol sy'n cefnogi dysgu, adlewyrchiad, bod yn agored, a her gefnogol.

63. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan gynnwys gwaith Llys (gyda datblygu Cynllun Gweithredu o ran achosion Llys), cofnodi achosion, asesïadau, adolygiadau, ymweliadau a dadansoddi risgiau.
64. Mewn adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 13 Tachwedd 2017, dywedwyd bod nifer y plant oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng yn sylweddol o 102 ym mis Mawrth 2017 i 56 ar 31 Awst 2017. Mae hyn yn ostyngiad o 55%. Credir bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i weithio'n rhagweithiol gyda theuluoedd a'u helpu i newid.
65. Mae'r risg 'Gatastroffig' sy'n parhau i fod angen sylw yn ymwneud ag ymweliadau gan Weithwyr Cymorth yn cael eu cynnal yn unol â'r cynllun gofal yn ystod achosion llys. Gallai hyn olygu nad yw plant yn cael eu gweld a'u cefnogi am gyfnod hwy na'r cyfnod a oedd yn angenrheidiol o ystyried y risg a nodwyd. Dywed Rheolwyr bod yr holl ymweliadau gan Weithwyr Cymorth yn cydymffurfio gyda'r cynlluniau gofal ac y gallai methiant i gydymffurfio arwain at gamau disgyblu yn erbyn aelodau o staff. Er nad oedd rhai dogfennau megis llythyrau cyn-achos a chofnod o gyfarfodydd cyn-achos i'w gweld ar y system bob amser, rhoddwyd sicrwydd bod y llythyrau perthnasol wedi cael eu hanfon a'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal a bod y gwendid yn ymwneud â llwytho gwybodaeth i fyny ar y system.
66. Deur i'r casgliad felly bod cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i wella effeithlonrwydd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac i wella trefniadau recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod polisïau / gweithdrefnau'n cael eu sefydlu'n llawn yn y prosesau staffio o ddydd i ddydd.
67. Mae argymhellion wedi cael eu diwygio yn unol â'r ymagwedd archwilio newydd o godi Materion a Risgiau. O ganlyniad, bu modd cyfuno rhai o'r argymhellion gwreiddiol.
68. Mae'r Cyngor wedo gwneud '**cynnydd rhesymol**' o ran cymryd y camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio. Fodd bynnag, oherwydd y risg 'Gatastroffig' sy'n parhau i fod angen sylw, mae'r lefel sicrwydd yn parhau i fod yn '**Gyfyngedig**'. Byddwn yn cynnal adolygiad dilyn-i-fyny pellach yn ystod 2018/19.


## Fframwaith Caffael Corfforaethol (Adolygiad Dilyn-i-fyny cyntaf)

Cynnydd Da		Materion / Risgiau Gwreiddiol	Materion / Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw
	Dyddiad yr Adroddiad	Medi 2017	Ionawr 2018
	Sicrwydd	Cyfyngedig	Cyfyngedig
	Catastroffig	1	1
	Uchel	1	1
	Canolig	16	9
	Isel	2	1

69. O'r 20 o Faterion/Risgiau a godwyd ym mis Medi 2017, roedd rheolwyr i fod i weithredu ar 10 ohonynt (9 â blaenoriaeth ganolig ac un â blaenoriaeth isel) erbyn 31 Rhagfyr 2017 a'r rhain oedd testun ein hadolygiad dilyn-i-fyny. Rydym wedi cadarnhau y cwblhawyd y camau gweithredu ar gyfer 7 o'r 10 Mater/Risg a godwyd a bod un ohonynt wedi ei gwblhau'n rhannol. Canfuwyd hefyd bod cam gweithredu pellach â Chwefror 2018 fel dyddiad targed wedi ei gwblhau.
70. Mae'r 2 Fater/Risg lle nad yw'r camau gweithredu wedi eu cwblhau yn ymwneud â diweddarau'r telerau ac amodau drafft ar y fewnwyd i gynnwys diogelu a'r Safonau Iaith Gymraeg diweddaraf. Cadarnhawyd bod yr Adran Gyfreithiol wedi cysylltu gyda'r swyddogion perthnasol am gyngor ynghylch geiriad ond nid yw wedi derbyn ymateb hyd yma.
71. Mae'r Cyngor wedi dangos '**cynnydd da**' o ran camau gweithredu oedd â Rhagfyr 2017 fel dyddiad targed. Fodd bynnag, mae lefel sicrwydd yr adroddiad yn parhau i fod yn '**Sicrwydd Cyfyngedig**' ohewydd lefel blaenoriaeth gweddill y materion a godwyd sydd eto i gyrraedd eu dyddiad targed o ran gweithredu. Byddwn yn cynnal adolygiad dilyn-i-fyny pellach ym mis Gorffennaf 2018 er mwyn monitro'r cynnydd o ran mynd i'r afael â'r Materion/Risgiau.

## Camau Gweithredu gan Reolwyr

72. Fel rhan o'r ymagwedd newydd tuag at archwilio mewnol, rydym wedi symud i ffwrdd o'r arfer o wneud argymhellion ac, yn lle hynny, rydym yn codi 'Materion' a 'Risgiau'. Er mwyn annog rheolwyr i gymryd perchenogaeth o'r risgiau, rydym yn rhoi iddynt y cyfrifoldeb o ddatblygu'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion / risgiau a nodwyd gennym.
73. Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â'r tueddiadau, mae'r graff isod yn nodi perfformiad o ran gweithredu'r argymhellion / mynd i'r afael â'r risgiau:



74. Fel y gwelir, mae perfformiad y Cyngor wedi gwella'n raddol dros y 13 mis diwethaf gyda chynnydd sylweddol yn ystod y 6 mis diwethaf.
75. Dengys dadansoddiad o'r Materion/Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw mai ymestyn y dyddiadau targed ar gyfer rhoi sylw i'r Materion/Risgiau a oedd yn gysylltiedig â Safonau Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu a'r Gorchmynion Llys Plant dan yr Amlinellaid Cyfraith Gyhoeddus oedd y rheswm pennaf am y gwelliant mewn perfformiad. Gallai'r ganran ostwng eto unwaith y bydd y rhain wedi cyflawni'r dyddiadau targed.
76. Dengys fod rheolwyr a oedd yn gyfrifol am y camau hynny yn gallu ymestyn y dyddiad targed heb gyfeirio at y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Rydym bellach wedi tynnu'r cyfleuster hwnnw yn ôl a rhaid cyflwyno unrhyw gais i ymestyn dyddiad i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a fydd yn ystyried yr amgylchiadau cyn cyutno i ymestyn y dyddiad. Disgwylir i hyn gael effaith ar y gyfradd weithredu ac y bydd perfformiad yn dirywio yn y tymor byr.
77. Caiff adroddiad manylach ar yr holl argymhellion a Materion/Risgiau sy'n weddill ei gyflwyno ddwywaith y flwyddyn ac mae'n dilyn yr adroddiad hwn.

## Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2017/18

---

78. Oherwydd bod cryn dipyn o waith o 2016/17 wedi llithro, ymddeoliad y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ac absenoldeb tymor hir ac ymddiswyddiad Uwch Archwiliwr, roedd llai o adnoddau ar gael i gwblhau Cynllun Gweithredol 2017/18.
79. O'r herwydd, mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cynnal asesiad risg gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151. Mae adolygiadau archwilio wedi cael eu blaenoriaethu er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu i'r meysydd risg uchaf.
80. Mae'r Cynllun Blynyddol diwygiedig ynghlwm yn [Atodiad A](#). Hyd yma, rydym wedi cwblhau 64% o'r cynllun diwygiedig ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar 23% pellach – cyfanswm o 87%. Mae 92% o archwiliadau wedi cael eu cwblhau ar amser, yn erbyn targed o 90%. Rydym wedi cyflwyno 84% o'n hadroddiadau i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu rhaglunedig.
81. Wedi i'r Pennaeth Archwilio a Risg gychwyn yn ei swydd ym mis Ebrill 2017, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i foderneiddio'r ymagwedd archwilio mewnol gan gynnwys ymarfer *Meddwl drwy Systemau* i nodi effeithlonrwydd a gwella'r broses a'r mecanweithiau adrodd. Mae'r gwaith hwnnw'n parhau.



## Eitemau y gofnwyd amdanynt gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

---

82. Ni ofynnwyd amunrhyw eitemau penodol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr.

## Materion Eraill

---

### Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

83. Dylai'r Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn briodol. Cafodd y cylch gorchwyl ei adolygu a'i gymeradwyo ddiwethaf yn Chwefror 2015, gyda'r Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo yn Ebrill a'r Cyngor Sir ym Mai 2015.
84. Yn unol â Blaenraglen Waith y Pwyllgor, roedd y cylch gorchwyl i fod i gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Ebrill. Fodd bynnag, yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r adolygiad o'r cylch gorchwyl tan y cyfarfod o'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr, yn dilyn cyhoeddi canllawiau newydd CIPFA – rhagwelwyd y byddai hynny'n digwydd ym mis Tachwedd 2017.
85. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yn cofio o'r cyfarfod ym mis Rhagfyr fod CIPFA wedi gohirio cyhoeddi'r canllawiau hyd fis Rhagfyr 2017 a bod y Pwyllgor wedi cytuno i ohirio'r adolygiad o'i Gylch Gorchwyl.
86. Fodd bynnag, mae CIPFA wedi gohirio cyhoeddi'r canllawiau. Er bod y ddogfen wedi ei chwblhau, rhaid i CIPDA ddisgwyl am y Swyddfa Gartref sydd wrthi'n paratoi Côt Ymarfer newydd ar Reolaeth Ariannol sy'n cael effaith ar bwyllgorau archwilio'r heddlu. Cafwyd cadarnhad y bydd yn awr yn cyhoeddi'r canllawiau newydd ym mis Mawrth 2018.
87. O'r herwydd, cynigir y dylid gohirio'r adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
88. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r gohiriad.

## Atodiad A – Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
<b>ADOLYGIADAU AWDURDOD GYFAN (CORFFORAETHOL)</b>										
1	Corfforaethol	Gwariant Cyfalaf	AM Cylchol	Terfynol	Rhagfyr 2017 (T) Chwefror 2018 (A)	Sylweddol	15	15	15	
2	Corfforaethol	Fframwaith Caffael Corfforaethol	Risg a Aseswyd gan AM	Terfynol	Medi 2017	Cyfyngedig	10	6	6	
3	Corfforaethol	Diogelu Data a Llywodraethu Gwybodaeth – Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol – Parodrwydd Data	Risg Gorfforaethol YM13 Adroddiad ICO	Terfynol	Chwefror 2018	Rhesymol	15	15	10	
4	Corfforaethol	Adfer TGCh ar ôl Trychineb	Risg Gorfforaethol YM10	Terfynol	Medi 2017	Sylweddol	10	6	6	
5	Corfforaethol	Rheoli Risg	AM Cylchol	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	10	0	0	Cynhaliwyd trosolwg yn 2017 gyda'r Rheolwr Yswiriant a Risg, yr UDA a'r Penaethiaid. Adolygiad yn 2018/19
6	Corfforaethol	Diogelu Corfforaethol	Risg Gorfforaethol YM12	Wedi'i gwblhau	Gorffennaf 2017	Rhesymol	20	20	20	

Tudalen 32

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynllu niwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
7	Corfforaethol	Rhaglen Drawsnewid – Gweithio'n Gallach	Ar gais y Swyddog Adran 151	Sgopio			15	15	0.5	
8	Corfforaethol	Diwylliant Foesegol	Gofyniad PSIAS	Wedi'i gwblhau	Medi 2017	Rhesymol	20	16	16	
9	Corfforaethol	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant – Gofynion Rhan 9	Deddfwriaeth Newydd	Gwaith Maes	Ebrill 2018		20	3	0.75	Estyniad gan LIC i weithredu cyllidebau a rennir. Felly cadw golwg yn unig gyda'r nod o gynnal archwiliad yn 2018/19
10	Corfforaethol	Rheoli Rhaglenni / Prosiectau	Ar gais y PW – un o amcanion yr UDA	Gwaith Maes	Chwefror 2018		15	15	3.75	
11	Corfforaethol	Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	Pryder Archwilio	Gwaith Maes	Chwefror 2018		15	15	4.25	
<b>PENNAETH SWYDDOGAETH ADNODDAU A'R SWYDDOG ADRAN 151</b>										
12	Adnoddau	Y Dreth Gyngor a NDR	System Ariannol Allweddol	Terfynol	Rhagfyr 2017	Rhesymol	20	20	19	
13	Adnoddau	Rhestr o Asedau Sefydlog a Chyfrifo Cyfalaf	System Ariannol Allweddol	Wedi'i ddileu	Amh	Amh	10	0	0	Gwaith wedi cael ei wneud gan archwilyr allanol. Rhywfaint o orgyffwrdd gyda'r

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
										archwiliad ar Wariant Cyfalaf. Yr archwiliad wedi'i ddileu.
14	Adnoddau	Rheoliadau Lefel Uchel ar gyfer Systemau Ariannol Allweddol	System Ariannol Allweddol	Wedi'i ddileu	Amh	Amh	10	0	0	Y diwrnodau wedi cael eu trosglwyddo i Ddyledwyr Amrywiol oherwydd y problemau a nodwyd. Mae systemau ariannol allweddol wedi cael sylw unigol ar wahân i Reoli Trysorlys sydd wedi bod yn wyrdd am nifer o flynyddoedd.
15	Adnoddau	Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	System Ariannol Allweddol	Terfynol	Medi 2017	Rhesymol	15	23	23	Dyddiau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn
16	Adnoddau	Prif System Gyfrifo	System Ariannol Allweddol	Terfynol	Mehefin 2017	Rhesymol	10	7	7	

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
17	Adnoddau	Incwm – Safon Diogelwch Data y Diwydiant Cardiau Talu	System Ariannol Allweddol	Terfynol	Chwefror 2018	Cyfyngedig	15	15	9.75	
18	Adnoddau	Arian Mân / Cyfrifon Imprest	System Ariannol Allweddol				10	10	0	
19	Adnoddau	Dyledwyr Amrywiol	System Ariannol Allweddol	Terfynol	Rhagfyr 2017	Cyfyngedig	10	27	26.5	Diwrnodau a drosglwyddwyd o'r Systemau Ariannol Allweddol a'r ddarpariaeth wrth gefn oherwydd problemau a nodwyd
<b>PENNAETH SWYDDOGAETH – BUSNES Y CYNGOR S'R SWYDDOG MONITRO</b>										
20	Busnes	Gwasanaethau Democratig a Gwasanaethau Aelodau – Lwfansau Aelodau	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	8	0	0	Trafodwyd gyda'r Swyddog Monitro – dim yn risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Parodrwydd GDPR
21	Busnes	Gwasanaethau Cyfreithiol	Gwasanaeth ddim wedi cael	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	6	0	0	Trafodwyd y Gofrestr Risg

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynllu niwyd	Nifer ddiwygie dig y dyddiau	Nifer wirioned dol y dyddiau	Cyf
			ei archwilio ers peth amser							gyda'r Swyddog Monitro –yr holl gamau gweithredu ar y trywydd iawn. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Parodrwydd GDPR.
<b>PENNAETH SWYDDOGAETH – TRAWSNEWID</b>										
22	Trawsnewid	Canolfannau Data	Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	10	0	0	Wedi ei ohirio tan 2018/19. Cynllunio ar gyfer digwyddiadau annisgwyl wedi derbyn sylw yn yr archwiliad Adfer TGCh yn dilyn Trychineb.
23	Trawsnewid	Cyfeirlyfr Gweithredol	Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	0	0	Wedi ei ohirio tan 2018/19. Dim yn flaenoriaeth.
24	Trawsnewid	Archwiliad Diogelwch y Rhwydwaith (Diogelwch Seiber)	Yn sylfaenol i weithrediad y Cyngor	Gwaith Maes			15	15	3.75	

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
<b>PENNAETH RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</b>										
25	Datblygu Economaidd	Swyddogaeth Datblygu Economaidd	Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	0	0	Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Archwiliad wedi'i ddileu.
26	Hamdden	Swyddogaeth Hamdden a Pherfformiad	Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17 – Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth	Sgopio			15	15	0.25	
27	Cynllunio	Tîm Strategaeth a Chymorth	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	10	0	0	Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Archwiliad wedi'i ddileu
28	Safonau Masnach	Cofrestriad Sifil	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Terfynol	Medi 2017	Sylweddol	10	10	10	

Tudalen 37

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynllu niwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
29	Rheoleiddio	Gwasanaethau Trwyddedu	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Terfynol	Rhagfyr 2017	Sylweddol	10	17	17	Diwrnodau dros ben wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. Ddim wedi cael ei archwilio o'r blaen ac angen rhoi sylw i gryn dipyn o ddeddfwriaeth
<b>PENNAETH GWASANAETHAU PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO</b>										
30	Priffyrdd	Gwasanaethau Meysydd Parcio a Gorfodaeth	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	0	0	Cynllun peilot newydd wedi ei sefydlu gyda sefydliad allanol ar gyfer gorfodaeth parcio. Gohirio'r archwiliad tan 2018/19 er mwyn rhoi amser i'r cynllun peilot gynhyrchu canlyniadau. Mae contract ar wahân ar gyfer gweithgareddau

Tudalen 38



Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynllu niwyd	Nifer ddiwygie dig y dyddiau	Nifer wirioned dol y dyddiau	Cyf
										gorfodaeth eraill (baw cŵn a sbwriel. Symud yr archwiliad i 2018/19)
31	Priffyrdd	Gwasanaethau Peirianeg a Dylunio	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	0	0	Gwasanaeth yn cael ei leihau a ddim yn faes blaenoriaeth uchel i'r Pennaeth Gwasanaeth. Dim ar y gofrestr risg.
32	Eiddo	Rheoli Stadau ac Eiddo	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	15	0	
33	Priffyrdd	Priffyrdd a Pheirianeg Sifil – Trefniadau Monitro Contract Priffyrdd	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Sgopio			15	15	0.25	
<b>PENNAETH TAI</b>										
34	Tai	Rhenti Tai – Parodrwydd ar gyfer Diwygio Lles (Credyd Cynhwysol)	System Ariannol Allweddol	Terfynol	Chwefror 2018	Rhesymol	15	27	23	Diwrnodau dros ben wedi eu trosglwyddo or Archwiliad Tai Fforddiadwy

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
35	Tai	Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi a'r Cynllun Benthyciadau Pontio	Cynllun Busnes Corfforaethol	Terfynol	Chwefror 2018	Rhesymol	15	5	5	Diwrnodau sy'n weddill wedi eu trosglwyddo i'r archwiliad Rhenti Tai
36	Tai	Rhaglen Cefnogi Pobl	Gwasanaeth ddim wedi cael ei archwilio ers peth amser	Wedi'i gwblhau	Chwefror 2018	Sylweddol	15	15	14.75	
<b>PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION</b>										
37	Oedolion	Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)	Risg Ymgyfreithiad mewn perthynas â'r Aseidiadau DoLS sy'n parhau i fod angen sylw	Sgopio			15	15	0.25	
45	Oedolion	Taliadau Uniongyrchol	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth				0	15	0	Pennaeth Gwasanaeth yn pryderu ynghylch llywodraethu a rheoli gwariant. Maes blaenoriaeth. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo o'r Archwiliad

Tudalen 40

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
										Cyflawni a Rheoli Gwasanaethau ar y Cyd
38	Oedolion	Darparu a Rheoli Gwasanaethau ar y Cyd mewn perthynas â gwasanaethau i bobl hŷn gyda'r Bwrdd Iechyd	Dogfen gyflawni flynyddol 2016/17	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	0	0	Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r Archwiliad Taliadau Uniongyrchol
39	Oedolion	Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed – Contractau Gofal Cartref	Dogfen Gyflawni Flynyddol 2016/17	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	15	0	0	Dim yn flaenoriaeth i'r Pennaeth Gwasanaeth a ddim ar y gofrestr risg. Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r ddarpariaeth wrth gefn.
<b>PENNAETH GWASANAETHAU PLANT</b>										
40	Plant	Strategaeth Rhiantu Corfforaethol – Plant	Sicrwydd Allanol	Gwaith Maes	<i>Ebrill 2018</i>		15	10	3	

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
		mewn Gofal – Buddsoddi i Arbed								
<b>PENNAETH DYSGU</b>										
41	Dysgu	Ysgolion Uwchradd – Cyllid ar gyfer y 6ed Dosbarth - Ysgol Syr Thomas Jones	Adolygiad cylchol	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	10	0	0	Dim yn faes risg uchel. Archwiliad wedi ei ddileu.
42	Dysgu	Ysgolion Cynradd – Adolygiadau Thematig – Casglu Incwm mewn Ysgolion	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth				20	20	0	
43	Dysgu	Absenoldeb Salwch mewn Ysgolion	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth	Wedi ei ddileu	Amh	Amh	20	0	0	Gwaith sylweddol wedi'i ymgymryd ag ef
44	Dysgu	Cludiant Ysgol	Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth	Terfynol	Medi 2017	Cyfyngedig	20	26	26	Diwrnodau ychwanegol wedi eu trosglwyddo o'r ddarpariaeth wrth gefn. Nodwyd problemau sylweddol.

Tudalen 42

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
<b>DYDDIAU HEB EU RHAGLENNU Y GELLIR CODI AMDANYNT (CYNHYRCHIOL)</b>										
		Gwaith dilyn i fyny					35	70	71.25	Nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig. Gwaith sylweddol yn cael ei wneud i glirio hen argymhellion sy'n sefyll, yn arbennig yn yr ysgolion.
		Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, Menter Dwyll Genedlaethol, cyfeiriadau ac ymholiadau.					155	80	85.25	Nifer y dyddiad wedi eu gostwng oherwydd gwneud i ffwrdd â swydd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol.
		<b>Cyfeiriadau :</b>								
46	Cyfeiriad	Adroddiad AGGCC – Llywodraethiant mewn perthynas â'r Cynlluniau Gweithredu	Cais gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Wedi'i gwblhau	Mehefin 2017	Amh	0	2	2	

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynllu niwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
47	Cyfeiriad	Gor-daliad Cyflogres	Cais gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg	Wedi'i gwblhau	Chwefror 2018	Amh	0	6	7	
48	Cyfeiriad	Cofrestru Taliadau Ariannol	Cais gan y Swyddog Adran 151	Gwaith Maes	<i>Chwefror 2018</i>		0	11	19	
49	Cyfeiriad	Clwb ar ôl Ysgol – Anghysonderau Cyllid	Cais gan y Gwasanaethau Dysgu	Wedi'i gwblhau	Chwefror 2018	Amh	0	15	13.75	
		Cau Gwaith y Flwyddyn Flaenorol					20	20	20	
		<b>Ardystiad Grant:</b>					35	0	0	Gwaith ardystiad grant wedi'i gwblhau
50	Grant	Grant Gwisg Ysgol	Cais gan yr Adain Gyfrifeg	Wedi'i gwblhau	Rhagfyr 2017	Sylweddol	0	2.5	2.5	
51	Grant	Grant Rhentu Doeth Cymru	Cais gan yr Adain Gyfrifeg	Wedi'i gwblhau	Gorffennaf 2017	Sylweddol	0	10	10	
52	Grant	Grant Gwella Addysg	Cais gan yr Adain Gyfrifeg	Wedi'i gwblhau	Gorffennaf 2017	Sylweddol	0	3	3	
53	Grant	Grant Datblygu Disgyblion	Cais gan yr Adain Gyfrifeg	Wedi'i gwblhau	Gorffennaf 2017	Sylweddol	0	6	6	
54	Grant	Chweched Dosbarth a Dysgu Parhaus Oedolion	Cais gan yr Adran Gyfrifeg	Wedi'i gwblhau	Chwefror 2018	Sylweddol	0	0.5	0.5	
		Ymgynghoriaeth Gorfforaethol					55	35	38.25	

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
		Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau					23	40	40.5	
		Adolygiad Rheoli					0	40	36.25	Dyddiau wedi eu trosglwyddo o Rheoli
		Digwyddiadau Annisgwyl					120	1	0	
		<b>CYFANSWM</b>					<b>1057</b>	<b>790</b>	<b>631</b>	
<b>DYDDIAU NAD OES MODD CODI AMDANYNT (DIM YN GYNHYRCHIOL)</b>										
		Risg ac Yswiriant					50	30	9.5	
		Gweinyddiaeth Gyffredinol					70	60	59.5	
		Datblygiad ac Adolygiad Personol, Cyfarfodydd Un i Un a Chyfarfodydd Tîm					8	25	21	Dim digon o ddiwrnodau wedi eu neilltuo. Dyddiau wedi'u trosglwyddo o'r dyddiau digwyddiadau annisgwyl.
		Rheoli, gan gynnwys ymgynghori gydag Archwilwyr Allanol a pharatoi'r cynllun archwilio					75	45	38	Diwrnodau wedi eu trosglwyddo i'r Adolygiad Rheoli

Tudalen 45

Cyf	Gwasanaeth	Teitl	Ffynhonnell	Statws Cyfredol	Targed ar gyfer cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu	Lefel Sicrwydd	Nifer y dyddiau a gynlluniwyd	Nifer ddiwygiedig y dyddiau	Nifer wirioneddol y dyddiau	Cyf
		Gwyliau Blyneddol (164), gan gynnwys absenoldeb statudol (41) ac absenoldeb arbennig (90)					245	295	270.25	Nifer y dyddiau wedi eu diwygio oherwydd ymddeoliad y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ac absenoldeb arbennig ac ymddiswyddiad yr Uwch Archwiliwr.
		Absenoldeb Salwch					45	10	13.75	Record salwch y tîm yn dda – y diwrnodau wedi eu trosglwyddo i hyfforddiant
		Hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff gan gynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg					10	75	73	Dim digon o ddiwrnodau wedi eu neilltuo –trosglwyddwyd dyddiau o'r gyfran a neilltuwyd ar gyfer salwch a digwyddiadau annisgwyl
		<b>CYFANSWM</b>					<b>503</b>	<b>540</b>	<b>485</b>	
		<b>CYFANSWM</b>					<b>1560</b>	<b>1330</b>	<b>1116</b>	



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
<b>Dyddiad:</b>	13 Chwefror 2018
<b>Pwnc:</b>	Argymhellion Archwilio Mewnol / Materion a Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Yn yr adroddiad hwn, ceir diweddariad ar statws a manylion y risgiau sy'n parhau i fod angen sylw ac sydd wedi cael eu codi gan y gwasanaeth archwilio mewnol.	

## 1. Rhagarweiniad


- 1.1. Gofynnodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am fanylion am yr holl argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw. Cyflwynais adroddiad ddiwethaf i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2017.

## 2. Argymhelliad

- 2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'n nodi'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor o ran rhoi sylw i'r risgiau y dygwyd sylw atynt gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol ers 1 Ebrill 2014.

### 3. Perfformiad o ran Gweithredu Argymhellion Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw

- 3.1. Fel rhan o'r dull newydd o gynnal archwiliadau mewnol, rydym wedi symud i ffwrdd o'r drefn o wneud argymhelliad tuag at broses o godi 'Materion' a 'Risgiau'. O'r blaen, roedd argymhellion yn cael eu graddio fel rhai Uchel, Canolig ac Isel. Caiff Materion / Risgiau yn awr ei graddio'n unol â fframwaith rheoli risg y Cyngor fel bod gwaith archwilio mewnol yn cyd-fynd ag awch y Cyngor i reoli risg.
- 3.2. Er mwyn annog rheolwr i gymryd perchenogaeth o'r risgiau, rydym yn rhoi'r cyfrifoldeb arnynt hwn i ddatblygu camau gweithredu i roi sylw i'r materion / risgiau yr ydym wedi eu nodi.
- 3.3. Mae'r broses yn debyg ac rydym yn monitro'r ffordd y rhoddir sylw i risgiau yn yr un modd ag y byddem yn monitro gweithrediad argymhellion. Fodd bynnag ni fyddwn yn clirio'r risg hyd oni fyddwn yn fodlon nad yw'r risg honno'n bodoli mwyach.
- 3.4. Er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar y tueddiadau, mae'r graff isod yn manylu ar y perfformiad mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion / rhoi sylw i'r risgiau:



- 3.5. Fel y gwelir, mae perfformiad y Cyngor wedi gwella'n raddol dros y 13 mis diwethaf.

#### 4. Yr Argymhellion / Risgiau sy'n parhau i fod angen sylw

- 4.1. Fel yr oedd ar 26 Ionawr 2018, roedd y Cyngor yn parhau i fod angen rhoi sylw i'r argymhellion / y risgiau a'r materion canlynol gyda dyddiad targed o 31 Rhagfyr ar gyfer eu gweithredu (manylion yn [Atodiad A](#)):

Hyd at 31/12/2017	Uchel	Coch	Ambr	Canolig	Melyn	Isel	Gwyrdd	Cyfanswm
Cyfanswm wedi eu gweithredu	75	6	35	314	47	195	23	695
Cyfanswm heb eu gweithredu	1	0	1	8	17	22	1	50
Cyfanswm	76	6	36	322	64	217	24	745
% a weithredwyd	99%	100%	97%	98%	73%	90%	96%	93%
<b>% Uchel &amp; Coch/Ambr a weithredwyd</b>	<b>98%</b>							
<b>% Canolig &amp; Melyn a weithredwyd</b>	<b>94%</b>							
<b>% Isel a Gwyrdd a weithredwyd</b>	<b>90%</b>							

## Atodiad A – Argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw / Risgiau

Yr holl Argymhellion Archwilio Mewnol Coch ac Ambr sydd ar Agor gyda dyddiad targed ar gyfer eu gweithredu hyd at 31/12/2017

Cyf	Adroddiad	Argymhelliad / Mater / Risg	Dyddiad yr Argymhelliad	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
<b>Gwasanaethau Plant</b>						
1	Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethiant Adroddiad Dilyn i Fyny 077 2016/17	3.2b Dylai Cofrestrau Risgiau'r Gwasanaeth, fel sy'n briodol, adlewyrchu'r risgiau sydd ynghlwm wrth weithio mewn partneriaeth	21/12/16	30/06/17	Pennaeth Gwasanaethau Plant	Ailadroddwyd o 003 – Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethiant 003 2015/16. Dyddiad targed gwreiddiol: 31/05/16
<b>Gwasanaethau Tai</b>						
2	Uned Cynnal a Chadw Tai 084 2016/17	2.1.1 Dylid creu llawlyfr yn amlinellu gweithrediadau a hawliau caniatâd yr Uned Cynnal a Chadw Tai. Dylai'r llawlyfr fod ar gael i bob gweithiwr a dylent lofnodi i gadarnhau eu bod wedi deall polisiau ac arferion yr Uned ac y byddant yn cydymffurfio â nhw.	11/05/17	31/10/17 wedi newid o 31/05/17	Arweinydd Tîm Asedau Perfformiad	Adroddiad Dilyn i Fyny cyntaf 161784f1 – ar y gweill. Gwybodaeth wrthi'n cael ei hel at ei gilydd i fapio gweithgareddau'r tîm a chyfrifoldebau'r staff er mwyn creu llawlyfr cynhwysfawr.

Tudalen 50

**Argymhellion Canolig a Melyn a wnaed gan Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw gyda dyddiadau targed ar gyfer gweithredu hyd at 31/12/2017**

Cyf	Adroddiad	Argymhelliad / Mater / Risg	Dyddiad yr Argymhelliad	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
<b>Corfforaethol</b>						
3	Archwiliad Dilyn i Fyny ar y Fframwaith Rheoli Risg ac ar y 5 Prif Risg 062 2016/17	6.1 Dylai Penaethiaid Gwasanaeth sicrhau bod Cynlluniau Darparu Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno'n brydlon ac ar amser gyda'r holl adrannau'n cael eu cwblhau gan gynnwys cysylltiadau i'r Cofrestrau Risg.	27/07/16	31/03/17	Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni	<p>Wedi ei ailadrodd o'r Fframwaith Rheoli Risg a'r 5 Prif Risg 011 2015/16.</p> <p>Dyddiad targed gwreiddiol: 31/03/16</p> <p>Mae'r UDA wedi cytuno i ryddhau cyfarwyddyd yn dweud bod raid glynu wrth amserlenni corfforaethol mewn perthynas â Chynlluniau Darparu Gwasanaeth. Y Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen i atgoffa Gwasanaethau o'r amserlenni yn yr hydref 2016.</p> <p>Diweddariad 31/08/17 – 89% o'r CDP wedi cael eu cyflwyno gyda'r holl adrannau'n gyflawn. Angen eu cyfieithu cyn eu cyhoeddi ar Monitor. I'w cwblhau yn ystod Ch2. Ymdrechion yn parhau i wella cydymffurfiaeth gydag amserlenni cynllunio busnes.</p>
<b>Cyllid</b>						
4	Budd-dal Tai a'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17	2 Dygodd profion sylw at y ffaith nad yw swyddogion bob amser yn cadw tystiolaeth i gefnogi hawliadau ar ffeil. Mae hyn yn arwain at y risg na fydd modd gwirio fod swyddogion wedi asesu hawliadau'n gywir ac yn unol â pholisi a rheoliadau.	31/08/17	31/12/17	Rheolwr Budd-daliadau Tai	<p>Mae hon wedi bod yn risg barhaus am nifer o flynyddoedd ac mae sylw wedi cael ei roddi a gweithdrefnau wedi cael eu sefydlu dros y blynyddoedd er mwyn gwella'r trefniadau. Gyda'r Adran yn bwriadu symud ymlaen i System Delweddu Dogfennau yn ystod y flwyddyn, dylai hyn wneud i fwrdd â'r problemau oherwydd bydd yr holl ddogfennau'n cael eu cadw yn electronig ar ffeil electronig yr hawlwyd. Mae gwiriadau cywirdeb wedi cael eu datblygu'n ddiweddar a'u hystyngiadau i edrych ar y materion ehangach sy'n gysylltiedig â'r hawliad gan edrych hefyd ar a yw'r hawliad wedi cael ei ddilysu'n gywir. Oherwydd y bwriad i symud yn o fuan i'r System Delweddu Dogfennau, defnyddir hyn fel dull sicrwydd i reoli'r mater hwn. Yn</p>

Cyf	Adroddiad	Argymhelliad / Mater / Risg	Dyddiad yr Argymhelliad	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
						ogystal, mae staff yn ffeilio eu gwaith eu hunain yn wythnosol a dylai hyn hefyd fod o gymorth i sicrhau bod yr holl waith papur yn cael ei ffeilio. Cedwir golwg ar a yw hyn yn cael ei wneud drwy gynnal cyfarfodydd 1-2-1 yn rheolaidd gyda staff.
5	Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17	3 Dygodd profion sylw at gamgymeriadau yn y modd y caiff budd-daliadau eu gweithio allan gan gynnwys camgymeriadau o ran y dyddiadau a'r symiau a nodwyd o wybodaeth a gafwyd, cyfraniadau'n eu gweithio allan yn anghywir a gwybodaeth ddilynol yn cael ei mewnbynnu'n anghywir.	31/08/17	31/12/17	Rheolwr Budd-daliadau Tai	Mae'r broses ddiwygiedig ar gyfer Gwiriadau Cywirdeb wedi nodi lefel y cywirdeb / camgymeriadau yn y tîm. Mae hyn wedi nodi nifer o 'dueddiadau' o ran camgymeriadau. Bwriedir canolbwyntio ar y rhain gyda golwg ar hybu gwelliant. Caiff adroddiad misol ar y gwiriadau cywirdeb ei gwblhau a'i adrodd arno er mwyn cadw ffocws ar y mater hwn i hyrwyddo gwelliant. Mae gwaith ar y prosiect i integreiddio ffurflenni Victoria a Northgate yn mynd rhagddo – bydd gwybodaeth o ffurflenni Victoria yn cael ei llwytho i Northgate a dylai hyn hefyd leihau'r camgymeriadau.
6	Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17092 2016/17	4 Dygodd y profion sylw at y ffaith nad oedd y Tîm refeniw yn cael gwybod bob amser pan oedd angen gwneud newidiadau o ran Disgownt Person Sengl gan olygu fod disgowntiau'n cael eu defnyddio'n anghywir.	31/08/17	31/10/17	Rheolwr Budd-daliadau Tai	Mae hyn wedi cael ei nodi yn y Gwiriadau Cywirdeb a'i drafod gyda staff. Cynhelir sampl ar hap yn hyn o beth er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa ymhellach. Bydd staff hefyd yn cael eu hatgoffa o bryd i'w gilydd am y mater hwn.  Diweddariad 19/09/17 – Gwiriadau'n mynd rhagddynt. Mae'r gwiriadau cywirdeb yn fodd o reoli hyn. Dengys gwiriadau diweddar bod y sefyllfa'n gwella o ran achosion lle yr oedd atebolrwydd i dalu Treth Gyngor yn anghywir ar y system fudd-daliadau. Cynhelir gwiriadau ar hap yn Chwarter 3 i ddansoddi hyn ymhellach.
7	Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17	6 Nid yw'r Tîm Budd-daliadau Tai yn cysoni'n brydlon unrhyw or-daliadau sydd wedi cael eu dileu yn y System Fudd-daliadau. Mae risg y bydd gwybodaeth ariannol yn anghywir ac yn annibynadwy.	31/08/17	31/12/17	Rheolwr Budd-daliadau Tai	Wedi gwneud darn o waith ar y System Adroddiadau sydd ar gael ar Northgate, daeth y Swyddog Cymorthdaliadau i'r canlyniad na fedr Northgate gysoni'n gywir ddyledion sydd wedi eu dileu.

Cyf	Adroddiad	Argymhelliad / Mater / Risg	Dyddiad yr Argymhelliad	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
8	Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17	7 Cafwyd problem gyda'r cyfleuster cynhyrchu adroddiadau yn system Fudd-daliadau Northgate a bod y symiau sydd wedi eu dileu weithio'n cael eu dychwelyd yn awtomatig i'r cyfrif gan olygu fod data yn anghywir. Mae hyn yn achosi problem wrth gysoni dyledion sydd wedi eu dileu ac mae risg y bydd gwybodaeth ariannol yn anghywir ac yn annibynadwy.	31/08/17	31/12/17	Rheolwr Budd-daliadau Tai	Wedi gwneud darn o waith ar y System Adroddiadau sydd ar gael ar Northgate, daeth y Swyddog Cymorthdaliadau i'r canlyniad na fedr Northgate gysoni'n gywir ddyledion sydd wedi eu dileu. O'r herwydd, mae angen proses newydd. Yn ogystal, bydd staff yn cael canllawiau o ran nodi achosion pan fydd swm a ddilëwyd yn cael ei ddychwelyd i'r hawliad.
9	Budd-daliadau Tai a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 092 2016/17	8 Er bod diogelwch ffisegol gwybodaeth yr adain wedi gwella'n ddiweddar, mae risg, oherwydd mai system bapur ydyw, y bydd gwybodaeth yn mynd ar goll.	31/08/17	31/12/17	Rheolwr Budd-daliadau Tai	Fel y nodwyd yn rhif 2, mae ymdrechion yn cael eu gwneud i gadw ar ben y gwaith ffeilio. O ran diogelwch ffisegol, mae rheolaeth dros fynediad i'r ffeiliau a'r ystafell fudd-daliadau yn saff ac yn effeithiol. Mae'r broblem yn ymwneud â lleoli'r dogfennau a'r ffeiliau. Bydd y System Delweddu Dogfennau'n gwneud i ffwrdd â'r broblem hon.
10	Diwylliant Moesegol 067 2016/17	1.1.4c Nid yw'r Uned Gaffael Gorfforaethol yn cyhoeddi'r rhaglen contractau a'r gofrestr contractau. Mae risg y bydd hyn yn cyfyngu ar gystadleuaeth ac ar dryloywder.	06/09/17	31/12/17	Rheolwr Caffael Corfforaethol	Bydd y gofrestr contractau'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Bydd y gwaith adolygu hefyd yn rhoi sylw i wybodaeth sy'n fasnachol sensitif.
11	Diwylliant Moesegol 067 2016/17	1.1.5b Nid yw'r Llawlyfr Caffael yn egluro dyletswydd swyddogion i ddatgan diddordeb mewn unrhyw ymarferol caffael a allai, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fod o fudd i'r unigolyn, aelodau eu teulu neu ffrindiau.  Mae yna risg y bydd swyddogion yn diystyru'r gofyniad hwn a gallai arwain at wrthdaro mewn diddordebau.	06/09/17	31/12/17	Rheolwr Caffael Corfforaethol	Bydd hyn yn cael sylw ac yn cael ei gynnwys yn y Llawlyfr Caffael.
12	Dyledwyr Amrywiol 171804	15 Dygodd y profion sylw at y ffaith nad yw'r system Dyledwyr yn cymryd i ystyriaeth y balansau a delir drwy'r	22/11/17	31/12/17	Rheolwr Refeniw	Mae hyn eisoes wedi cael ei godi yn yr Archwiliad Dilyn-i-Fyny Dyledwyr Amrywiol 051 a Dyledwyr Amrywiol 1982 2014/15.

Cyf	Adroddiad	Argymhelliad / Mater / Risg	Dyddiad yr Argymhelliad	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
		<p>system cyflogres. Mae hyn yn cael effaith ar gyfanrwydd data'r system ac o ganlyniad, mae'r Adain wedi bod yn cymryd camau i adennill dyledion sydd eisoes wedi cael eu talu (drwy'r gyflogres). Yn ychwanegol at hyn, nid yw'r system wedi cael ei chysoni gyda'r ledjer gyffredinol ers Ebrill 2017.</p> <p>Mae risg na fydd yr holl falensau yn cael eu nodi gyda hynny'n gwastraffu adnoddau'r Cyngor ac yn cael effaith negyddol ar enw da'r Cyngor.</p>				Bydd yr Arweinydd Tîm yn gwneud y gwaith cysoni hyd yma. Bydd yr Adain Incwm yn gwneud yr addasiadau cywir i'r system Dyledwyr Amrywiol i'r ledjer gyffredinol.
<b>Tai</b>						
13	Archwiliad Dilyn-i-fyny Parhad Busnes 081 2016/17	1.3 Dylai gwasanaethau sicrhau bod trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol; dylai'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth gynnwys trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng.	17/01/17	30/04/17 wedi newid o 01/04/17	Pennaeth Tai	Wedi ei ail-adrodd o Reoli Parhad Busnes 007 2015/16 Dyddiad Targed Gwreiddiol 31/12/15 Diweddariad 28/03/17 – Mae Tîm Busnes y Gwasanaeth wrthi'n gweithio ar yr argymhelliad hwn ar hyn o bryd. Maent yn rhagweld y bydd yr argymhelliad hwn wedi ei weithredu erbyn 30 Ebrill 2017.
<b>Children's Services</b>						
14	Archwiliad Dilyn-i-fyny Parhad Busnes 081 2016/17	1.3 Dylai gwasanaethau sicrhau bod trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol; dylai'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth gynnwys trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng.	17/01/17	01/04/17	Pennaeth Gwasanaethau Plant	Wedi ei ail-adrodd o Reoli Parhad Busnes 007 2015/16 Dyddiad Targed Gwreiddiol 31/12/15
<b>Learning</b>						
15	Archwiliad Dilyn-i-fyny Parhad Busnes 081	1.3 Dylai gwasanaethau sicrhau bod trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol; dylai'r Cynlluniau Darparu Gwasanaeth	17/01/17	01/04/17	Pennaeth Dysgu	Wedi ei ail-adrodd o Reoli Parhad Busnes 007 2015/16 Dyddiad Targed Gwreiddiol 31/12/15



Cyf	Adroddiad	Argymhelliad / Mater / Risg	Dyddiad yr Argymhelliad	Dyddiad Targed y cytunwyd arno	Swyddog Cyfrifol	Sylwadau
	2016/17	gynnwys trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng.				
16	Parodrwydd y Cyngor ar gyfer y Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) 171801	Dim ganllawiau / ymwybyddiaeth gorfforaethol mewn perthynas â GDPR wedi cael ei gyfathrebu i ysgolion / Penaethiaid.  Mae yna risg nad yw'r ysgolion yn gwybod am GDPR ac wedi paratoi ar ei gyfer.	27/11/17	31/12/17	Pennaeth Dysgu	Y Pennaeth Dysgu i roi gwybod i Benaethiaid Ysgolion am y rheoliad newydd.  Gwasanaeth Dysgu i benderfynu mewn ymgynghoriad gyda'r Penaethiaid a ddylai ysgolion geisio datrysiaid rhanbarthol neu un wedi ei allanoli ar gyfer gweithredu GDPR a chydymffurfio gyda'r gofynion.
<b>Addysg</b>						
17	Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16	5.6.1 Dylai'r Corff Llywodraethu benodi'n ffurfiol archwiliwr ar gyfer Cronfa'r Ysgol a dylid cofnodi hyn yng nghofnodion y cyfarfod.	29/02/16	31/10/16	Pennaeth	
18	Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16	5.7.1 Dylai'r ysgol gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988.	29/02/16	31/03/16	Pennaeth	
19	Ysgol Talwrn 030 2015/16	4.6.1 Dylid cynnal asesiad risg er mwyn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig pan yn ymateb i'r larwm diogelwch.	15/03/16	31/03/16	Pennaeth	
20	Ysgol Llanfair PG 057 2016/17	4.5.1 Dylid diweddarau cofnodiadau gyrywyr yn flynyddol a dylai bob aelod o staff lenwi ffurflen – Datganiad ar gyfer Gyrywyr Cerbydau'r Cyngor neu Gerbydau Preifat.	15/06/16	30/06/16	Pennaeth	

This page is intentionally left blank



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Y Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 321A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Deloitte LLP a Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

## Y Wybodaeth Ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio

Y ddogfen hon	4
Y wybodaeth ddiweddaraf am waith archwilio ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn	4
Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 – Cyngor Sir Ynys Môn	5
Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn	7
Gwaith arolygu arall 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn	11

## Y ddogfen hon

- 1 Mae'r ddogfen hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) am waith cyfredol ac arfaethedig Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n cwmpasu gwaith archwilio ariannol a pherfformiad ynghyd â gwybodaeth am raglen yr Archwilydd Cyffredinol o archwiliadau gwerth am arian.

## Y wybodaeth ddiweddaraf am waith archwilio ariannol – Cyngor Sir Ynys Môn

- 2 Mae **Arddangosyn 1** yn rhoi trosolwg byr i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r gwaith archwilio ariannol a adroddwyd i'r cyngor. Mae cynnydd yn erbyn yr allbynnau a cherrig milltir allweddol arfaethedig o allbynnau a cherrig milltir archwilio ariannol, fel y nodir yn yr amlinelliad drafft, wedi'i grynhoi yn **Arddangosyn 1**.

### Arddangosyn 1: cyflawni gwaith archwilio ariannol 2016-17

Allbwn arfaethedig	Dyddiad cychwyn arfaethedig	Dyddiad adrodd arfaethedig	Llunio'r adroddiad terfynol
<b>Dogfen ar yr hyn i'w gyflawni mewn Archwiliad</b>	Mis Chwefror 2017	Mis Mawrth 2017	Mis Mawrth 2017
<b>Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol</b>	Mis Mehefin 2017	Mis Medi 2017	Mis Medi 2017
<b>Barn ar y Datganiadau Ariannol</b>	Mis Mehefin 2017	Mis Medi 2017	Mis Medi 2017
<b>Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan</b>	Mis Gorffennaf 2017	Mis Medi 2017	Mis Medi 2017
<b>Memorandwm Cyfrifon Ariannol</b>	Mis Medi 2017	Mis Hydref 2017	Mis Hydref 2017
<b>Adroddiad Archwilio Blynyddol</b>	Mis Hydref 2016	Mis Tachwedd 2017	Mis Tachwedd 2017

## Gwaith archwilio perfformiad 2016-17 – Cyngor Sir Ynys Môn

### Arddangosyn 2: gwaith archwilio perfformiad 2016-17 – Cyngor Sir Ynys Môn

Gweithgaredd	Cwmpas	Statws
<b>Cynllun Archwilio</b>	Cynllun gwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2016-17.	Cwblhawyd – Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Mawrth 2016.
<b>Archwiliad o'r Cynllun Gwella</b>	Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi cynllun gwella.	Cwblhawyd – Adolygiad wedi'i gwblhau. Cyhoeddwyd tystysgrif.
<b>Asesiad o berfformiad</b>	Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	Cwblhawyd – gweler uchod.
<b>Adroddiad Gwella Blynyddol</b>	Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Cyngor.	Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017.
<b>Astudiaeth Thematig: Cydnerthedd Ariannol</b>	Ffocws: Cynlluniau Arbedion.	Cyhoeddwyd adroddiad lleol ym mis Chwefror 2017.
<b>Astudiaeth Thematig: Llywodraethu</b>	Ffocws: Llywodraethu newidiadau sylweddol i wasanaethau.	Cyflwynwyd adroddiad lleol ym mis Mehefin 2017.
<b>Astudiaeth Thematig: Trawsnewid</b>	Casglu barn swyddogion ynglŷn â materion allweddol o ran delio â newid/trawsnewid.	Prosiect wedi'i gwblhau. Adborth i'r Prif Weithredwr yn ystod gwanwyn 2018.

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Cwmpas</b>	<b>Statws</b>
<b>Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Gwella llesiant drwy addasiadau i dai</b>	Cwblhawyd y gwaith maes.	Cyhoeddi yn ystod gaeaf 2018.
<b>Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Trefniadau awdurdodau lleol i gomisiynu gwasanaethau anableddau dysgu yn strategol</b>	Cwblhawyd y gwaith maes.	Cyhoeddi yn ystod gaeaf 2018.
<b>Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw – Gwasanaethau digartrefedd</b>	Cwblhawyd y gwaith maes.	Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018.



## Gwaith archwilio perfformiad 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

Tudalen 63

Gweithgaredd	Cwmpas	Statws
<b>Cynllun Archwilio</b>	Cynllun gwaith archwilio perfformiad ar gyfer 2017-18.	Lluniwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mawrth 2017.
<b>Archwiliad o'r Cynllun Gwella</b>	Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi cynllun gwella.	Cwblhawyd – Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Ebrill 2017.
<b>Asesiad o berfformiad</b>	Archwiliad o'r ffordd y cyflawnwyd dyletswydd y Cyngor i gyhoeddi asesiad o berfformiad.	Cwblhawyd – Cyhoeddwyd tystysgrif ym mis Tachwedd 2017.
<b>Adroddiad Gwella Blynyddol</b>	Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Cyngor.	I'w gyhoeddi yn ystod haf 2018.
<b>Astudiaeth Thematig: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Asesiad sylfaenol</b>	Sylwebaeth Blwyddyn Un: bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn casglu tystiolaeth ynghylch sut mae'r 44 o gyrff yn dechrau ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn nodi enghreifftiau o arfer nodedig sy'n dod i'r amlwg. Caiff y gwaith ei lunio i gefnogi gwelliant a llywio gwaith archwilio yn y dyfodol o dan y Ddeddf.	Cwblhawyd y gwaith maes. Adroddiad cryno cenedlaethol yn ystod gwanwyn 2018.
<b>Astudiaeth Thematig: Craffu – Addas i'r Dyfodol</b>	Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith pwyllgorau craffu.	I ddigwydd drwy gydol blwyddyn archwilio 2017-18. Cyhoeddwyd Briff y Prosiect. Caiff y gwaith maes ei gwblhau ym mis Ionawr 2018.

Gweithgaredd	Cwmpas	Statws
<p><b>Astudiaeth Thematig: Adolygiad o ddefnyddwyr gwasanaethau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).</b></p>	<p>Bydd y prosiect hwn yn profi'r rhyngwyneb defnyddiwr gwasanaeth ym mhob awdurdod. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso sut deimlad ydyw (fel aelod o'r cyhoedd) i ddefnyddio gwasanaethau'r cyngor, gan gynnwys detholiad o wasanaethau a senarios. Ar ben hynny, diben y trosolwg lleol hwn yw penderfynu p'un a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar waith er mwyn ei alluogi i barhau i gyrraedd SATC.</p>	<p>I ddigwydd drwy gydol blwyddyn archwilio 2017-18. Cwblhawyd y gwaith maes. Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2018.</p>
<p><b>Gwaith Lleol: Parodrwydd Wylfa Newydd a'i effaith ar Allu Corfforaethol.</b></p>	<p>Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar allu a pharodrwydd y Cyngor i gefnogi prosiect Wylfa Newydd yng nghyd-destun y Rhaglen Ynys Ynni ac amcanion strategol ehangach y Cyngor. Bydd yr adolygiad yn cydnabod cynnydd ac elfennau arfer nodedig, ond gall hefyd dynnu sylw at feysydd risg nad yw'r Cyngor wedi'u hystyried eto a/neu lle gall cymorth allanol ychwanegu gwerth drwy wella cydnerthedd y Cyngor.</p>	<p>Cwblhawyd y gwaith maes. Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Chwefror 2018.</p>
<p><b>Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Cronfa Gofal Integredig</b></p>	<p>Cafodd y Gronfa Gofal Canolraddol ei hailenwi'n Gronfa Gofal Integredig yn ddiweddar. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Gofal Integredig ar lefel genedlaethol a lleol drwy'r byrddau partneriaeth rhanbarthol.</p>	<p>Briff y Prosiect i'w gyhoeddi.</p>

Gweithgaredd	Cwmpas	Statws
<b>Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Defnyddio data'n effeithiol</b>	Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar rôl awdurdodau lleol o ran pa mor effeithiol ydynt wrth reoli a defnyddio data. Bydd hefyd yn ystyried pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn asesu ac yn defnyddio data a ddelir gan bartneriaid. Fodd bynnag, cydnabyddir bod cynghorau ar gamau gwahanol iawn o ran sut maent yn defnyddio data. Felly, bydd yr archwiliad hwn yn asesu pob awdurdod lleol ar ei berfformiad gan nodi pa mor dda y mae awdurdodau'n perfformio wrth gasglu data, dadansoddi data a defnyddio data i gefnogi'r broses gwneud penderfyniadau a defnyddio adnoddau.	Cyhoeddwyd Briff y Prosiect – mis Mehefin 2017. Arolwg wedi'i gyhoeddi i Gyngor Sir Ynys Môn yn ystod hydref 2017.
<b>Astudiaeth Gwella Llywodraeth Leol – Pa mor dda y mae cyrff cyhoeddus yn darparu gwasanaethau i gymunedau gwledig</b>	Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar asesu pa mor effeithiol y mae sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru wrth gydweithio i asesu anghenion, nodi blaenoriaethau, darparu a chynnal gwasanaethau gweithredol allweddol i ddiwallu anghenion pobl mewn cymunedau gwledig.	Cyhoeddwyd Briff y Prosiect – mis Mehefin 2017. Arolwg wedi'i gyhoeddi i Gyngor Ynys Môn yn ystod haf 2017. Gwaith maes wedi'i gynllunio ar gyfer 2018.

Gweithgaredd	Cwmpas	Statws
<b>Adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: adroddiadau 2017-18</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad o'r dirwedd caffael cyhoeddus</li> <li>• Rheoli gwastraff (atal gwastraff)</li> <li>• Rhaglen Cefnogi Pobl</li> <li>• Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (cynllunio tymor canolig integredig)</li> <li>• Gwasanaethau gwybodeg GIG Cymru</li> <li>• Mynediad at wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol</li> <li>• Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol)</li> </ul>	<p>Adroddiad Cefnogi Pobl wedi'i gyhoeddi ym mis Awst 2017.</p> <p>Adroddiad caffael cyhoeddus wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017.</p> <p>Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol) wedi'u cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017.</p> <p>Gweddill yr adroddiadau'n cael eu drafftio. Cyhoeddi yn ystod gaeaf 2017/gwanwyn 2018.</p>
<b>Adroddiadau cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru: adroddiadau 2018-19</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwasanaethau leuenctid</li> <li>• Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020</li> <li>• Rhaglen Datblygu Gwledig yr UE</li> <li>• Gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau</li> <li>• Gwasanaethau gofal sylfaenol</li> </ul>	<p>Cyhoeddi yn 2019.</p> <p>Cyhoeddi yn 2018.</p> <p>Cyhoeddi yn 2018.</p> <p>Cyhoeddi yn 2018.</p> <p>Cyhoeddi yn 2018.</p>

## Gwaith arolygu arall 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

Arddangosyn 4: Gwaith arolygu arall 2017-18 – Cyngor Sir Ynys Môn

Gweithgaredd	Cwmpas	Statws
<b>2017-18 Estyn</b>	Ar wahân i'r rhaglen arolygu ysgolion lleol, nid oes arolygiad o wasanaeth addysg Cyngor Sir Ynys Môn wedi'i gyhoeddi eto.	Adroddiad dilynol GwE wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017.
<b>2017-18 AGGCC</b>	Yn genedlaethol mae AGGCC yn cynnal adolygiad ar y cyd o wasanaethau iechyd meddwl cymunedol. Nid oes unrhyw waith dilynol lleol wedi'i gyhoeddi yng Nghyngor Sir Ynys Môn eto.	Adroddiad cenedlaethol.

Tudalen 67

Diweddarwyd ddiwethaf: 16.12.17

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adrodd i:</b>	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
<b>Dyddiad:</b>	13 Chwefror 2018
<b>Pwnc:</b>	Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	Marc Jones, Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol Arfaethedig ar gyfer 2018/19 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus angen i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynllun sy'n seiliedig ar risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gymeradwyo'r rhain (Safon 1110).	

## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol 2018/19 arfaethedig wedi eu hatodi ar gyfer eu hadolygu a'u trafod gan y Pwyllgor.

## 2. Cefndir

- 2.1. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) angen i mi, fel y prif swyddog archwilio, sefydlu cynlluniau seiliedig sy'n risg er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol sy'n gyson â nodau'r Cyngor.
- 2.2. Wrth flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig, mae'n rhaid i ni wneud gwaith digonol er mwyn fy ngalluogi i ddarparu barn archwilio mewnol flynyddol fel y gall y Cyngor siapio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.
- 2.3. Yn draddodiadol, byddai'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynllunio ei waith gan ddefnyddio strategaeth gynllunio am dair neu hyd yn oed pum mlynedd. Ar gyfer Cynllun Archwilio 2017/18, parhaodd y Rheolwr Archwilio blaenorol â'r strategaeth tair blynedd, yn dilyn ymgynghoriad â'r UDA a'r Pennaethiaid Gwasanaeth.
- 2.4. Fodd bynnag, yn yr Aseiad Ansawdd Allanol a gafodd ei gynnal ym mis Mawrth 2017, tynnwyd sylw at y ffaith, er bod y fethodoleg gynllunio hon yn

cyd-fynd â PSIAS, dylid ystyried a oedd cynllunio tair blynedd yn effeithiol ac yn fuddiol. Cwestiynodd yr asesydd a oedd Archwilio mewnol yn gallu canolbwyntio ar yr hyn a fyddai'n bwysig i'r Cyngor ymhen tair blynedd a nododd ymhellach bod cyflymder y newid mewn llywodraeth leol yn awgrymu y dylid cynllunio am hyd at flwyddyn ar y mwyaf ac am gyfno hyd yn oed yn llai weithiau.

- 2.5. O ganlyniad, rydw i wedi mabwysiadu agwedd newydd tuag at ddatblygu'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018/19. Fel sail i'r adroddiad, rydw i wedi defnyddio'r gofrestr risg gorfforaethol er mwyn penderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau archwilio mewnol, tra hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r Strategaeth Archwilio ar gyfer 2017/18 – 2019/20.
- 2.6. Yn ychwanegol at hynny, rydw i wedi cyfarfod â Swyddfa Archwilio Cymru, y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151, y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r rhan fwyaf o Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn trafod eu safbwyntiau ar y meysydd arfaethedig ar gyfer eu hadolygu.
- 2.7. Canlyniad hyn oll yw cynllun mwy pwrpasol, perthnasol ac sy'n seiliedig ar risg ar gyfer 2018/19.
- 2.8. Bydd yn gynllun deinamig; byddaf yn adolygu ac yn addasu'r cynllun yn ôl yr angen, mewn ymateb i newidiadau ym musnes, risgiau, gweithrediadau a rhaglenni'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol. Byddaf yn adrodd yn ôl ar y newidiadau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ogystal â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

### **3. Argymhelliad**

- 3.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer 2018/19 ac yn nodi'r ymagwedd archwilio newydd tuag at gynllunio archwilio.





# Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19

Mawrth 2018

---

**Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA**  
**Pennaeth Archwilio a Risg**

Tudalen 71

## Rhagarweiniad

---

1. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i reolwyr ar bob lefel ac i aelodau etholedig ynghylch ansawdd gweithgaredd o fewn y Cyngor. 'Rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar lywodraethiant, rheoli risg, perfformiad, gwelliant, effeithlonrwydd a rheolaeth weithredol ac ariannol.
2. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu i Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus<sup>1</sup> (PSIAS), sy'n diffinio archwilio mewnol fel:

---

*Mae archwilio mewnol yn weithgaredd ymgynghorol a sicrwydd annibynnol a gwrthrychol a ddyluniwyd i ychwanegu gwerth ac i wella gweithgaredd sefydliadau unigol. Mae'n cynorthwyo sefydliad i gyflawni ei amcanion trwy fabwysiadu dull disgybledig a systematig o werthuso a gwella effeithlonrwydd ei brosesau rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth.*

---


3. Agwedd bwysig ar waith archwilio mewnol yw i ba raddau y mae'n helpu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion a gwella. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cynllun archwilio mewnol a'r gwaith archwilio mewnol ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig i'r sefydliad, a rhaid i farn y gwasanaeth archwilio mewnol a'i awgrymiadau ar gyfer gwella fod o gymorth i'r sefydliad ac o werth i'r rhanddeilaid.
4. Felly mae amcanion y gwasanaeth fel a ganlyn:
  - Darparu sicrwydd a chyngor annibynnol i reolwyr ac aelodau etholedig ar faterion rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol.
  - Datblygu a hyrwyddo ein rôl i wneud cyfraniad sylweddol at nod y Cyngor i foderneiddio, cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.
  - Ychwanegu gwerth ym mhob maes o'n gwaith, gan ddarparu gwasanaeth ardderchog i'n cwsmeriaid.

---

<sup>1</sup> Cyhoeddir Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017) gan y Gosodwyr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (CIPFA, yr Adran Iechyd, Llywodraeth Cymru, yr Adran Gyllid (GI), Trysorlys EM a Llywodraeth yr Alban) ac maent yn cymhwyso Safonau Rhyngwladol y Sefydliad Archwilio Mewnol i'r Sector Cyhoeddus yn y DU

## Strwythur a chapasiti'r gwasanaeth

5. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi newid yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd hyn yn parhau yn ystod 2018/19. Am y 10 mlynedd diwethaf 'roedd swydd y Prif Swyddog Archwilio wedi'i hallanoli. O 1 Ebrill 2017, mae'r gwasanaeth wedi penodi ei Bennaeth Archwilio a Risg ei hun, sydd wedi cyflwyno dull llyfn a modern o weithredu, gan ddefnyddio'r dull '*Meddwl Trwy Systemau*, y cyfeirir ato weithiau fel '*Archwilio Darbodus*' .
6. Mae Rheoli Risg ac Yswiriant bellach yn rhan o'r gwasanaeth. Bydd cydweithio agos rhwng y ddau dîm - Archwilio Mewnol a Rheoli Risg - yn dod â manteision ychwanegol trwy fabwysiadu dull archwilio mewnol yn seiliedig ar risg, sy'n rhan annatod o'r ymagwedd archwilio newydd a'r Strategaeth hon.
7. Ymddeolodd y Swyddog Atal Twyll Corfforaethol ym mis Awst 2017 a chafodd y swydd ei dileu o'r strwythur. Er y bydd tîm yn parhau i ymchwilio i dwyll lle bo'n briodol, bydd y gwaith cyfatebu dan y Fenter Atal Twyll Genedlaethol yn cael ei neilltuo i'r gwasanaethau perthnasol er mwyn iddynt ei wneud eu hunain. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn parhau i gydlynu a monitro.
8. Newid arall yn ystod y flwyddyn oedd ymddiswyddiad un o'r Uwch Archwilwyr ym mis Rhagfyr 2017 ar ôl absenoldeb hirdymor. Byddwn yn achub ar y cyfle i benodi hyfforddai i 'dyfu ein swyddogion ein hunain' yn unol ag amcanion y Cyngor o ran recriwtio a chadw staff.
9. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys cymysgedd ardderchog o gymwysterau proffesiynol, gan gynnwys CIPFA<sup>2</sup> , CIIA<sup>3</sup> ac ACCA<sup>4</sup> , ynghyd â chymwysterau academaidd yn y meysydd Rheoli Newid, Busnes a Chyfrifyddiaeth.
10. Mae'r siart sefydliad isod yn dangos y strwythur arfaethedig ar gyfer 2018/19:



<sup>2</sup> Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth

<sup>3</sup> Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol

<sup>4</sup> Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig

## Cynllunio archwilio ar sail risg

---

11. Mae'n rhaid cwrdd â gofynion amrywiol Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus wrth gynllunio gwaith archwilio mewnol. Mae Safon 2010 yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynllun sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgaredd archwilio mewnol, sy'n gyson â nodau'r sefydliad. Mae Safon 2120 yn nodi bod yn rhaid i'r gweithgaredd archwilio mewnol werthuso effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg a chyfrannu at eu gwella.
12. Yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, cydnabuwyd bod yr angen i reoli risgiau yn rhan hanfodol o ymarfer llywodraethu corfforaethol da. Mae hyn wedi rhoi pwysau cynyddol ar sefydliadau i nodi'r holl risgiau busnes y maent yn eu hwynebu ac i esbonio sut maent yn eu rheoli.
13. Yn ogystal, cydnabuwyd bod gweithgareddau sy'n ymwneud â rheoli risgiau yn hanfodol ac yn greiddiol i'r gwaith o gynnal system gadarn o reolaeth fewnol.
14. Er mai rheolwyr sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risgiau, un o swyddogaethau allweddol y gwasanaeth archwilio mewnol yw darparu sicrwydd bod y risgiau hynny'n cael eu rheoli'n briodol.
15. Y ffordd orau i wasanaeth archwilio mewnol proffesiynol gyflawni ei amcan o fod yn gonglfaen ar gyfer llywodraethiant yw trwy osod ei waith yng nghyd-destun fframwaith rheoli risg y sefydliad ei hun.
16. Mae archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg yn caniatáu i wasanaeth archwilio mewnol roi sicrwydd i'r 'rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu' fod y prosesau rheoli risg yn rheoli risgiau'n effeithiol, mewn perthynas â'r archwaeth risg. Yn ogystal, mae wastad yn ceisio atgyfnerthu cyfrifoldebau rheolwyr ac aelodau etholedig i reoli risg.
17. Mae archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg ar flaen y gad o ran ymarfer archwilio mewnol. Mae'n broses ddeinamig ac felly mae'n anos ei rheoli na methodolegau traddodiadol. Mae monitro cynnydd yn erbyn cynllun blynyddol sy'n newid yn gyson yn her. Fodd bynnag, mae'r manteision yn gorbwyso'r anawsterau hyn a bydd yn rhoi sicrwydd:
  - bod rheolwyr wedi nodi, asesu ac ymateb i risgiau uwchlaw ac islaw'r archwaeth risg
  - bod ymatebion i risgiau yn effeithiol ond nid yn ormodol o ran rheoli risgiau cynhenid o fewn yr archwaeth risg
  - bod rheolwyr yn monitro prosesau rheoli risg, gan gynnwys effeithiolrwydd ymatebion i risgiau a'r camau gweithredu yn eu cylch, er mwyn sicrhau bod y prosesau hynny'n parhau i weithredu'n effeithiol

- categorieiddio risgiau, ymatebion a chamau gweithredu ac adrodd arnynt yn gywir.
18. Adolygwyd mesurau perfformiad i sicrhau bod yr anawsterau o ran mesur effeithiolrwydd y gweithgaredd archwilio mewnol wedi eu cymryd i ystyriaeth ([trafodir hyn yn ddiweddarach](#) ).

## Twyll

19. Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus mae'n rhaid i'r gweithgaredd archwilio mewnol werthuso'r posibilrwydd o dwyll, a sut mae'r sefydliad yn rheoli'r risg o dwyll (Safon 2120).

## Gwella

20. Yn unol â Safon 2130, mae'n rhaid i'r gweithgaredd archwilio mewnol gynorthwyo'r sefydliad i gynnal rheolaethau effeithiol trwy werthuso eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd a thrwy hyrwyddo gwelliant parhaus.
21. Un o nodau Archwilio Mewnol yw helpu gwasanaethau i wella. Mae'n bosib felly nad archwiliadau traddodiadol fydd rhai o'r adolygiadau hyn ond prosiectau ymgynghori. Os dyna'r achos, bydd yr adroddiad perthnasol yn egluro nad archwiliad ydyw ac ni fydd yn cynnwys barn archwilio yn y ffordd arferol.

## Blaenoriaethau Archwilio Mewnol

22. Yn hanesyddol, defnyddiwyd cynllun treigl tair blynedd ar gyfer y broses o gynllunio gwaith archwilio yn Ynys Môn. Oherwydd ei natur, roedd hyn yn cynnwys ceisio rhagweld yr adolygiadau archwilio y byddai angen eu cynnal dair blynedd ymlaen llaw. Mewn amgylchedd sy'n newid yn gyson nid yw hynny bellach yn briodol.
23. Daeth yr Asesiad Ansawdd Allanol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2017 i'r casgliad:

---

*" Er ei fod yn cydymffurfio â PSIAS, dylid ystyried a yw cynllunio tair blynedd yn effeithiol ac yn werth chweil. A yw Archwilio Mewnol yn gallu canolbwyntio ar yr hyn a fydd yn bwysig i'r sefydliad mewn tair blynedd? Mae'r gyfradd newid mewn llywodraeth leol yn awgrymu na ddylid cynllunio mwy na blwyddyn ymlaen llaw ac efallai hyd yn oed yn llai. "*

---

24. Fel y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fabwysiadu dull archwilio mwy hyblyg er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y sefydliad a'r amgylchedd risg, bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn cyfarfod yn rheolaidd â Phenaeithiaid

Gwasanaeth i drafod eu risgiau, eu pryderon a'u gofynion diweddaraf. Yn y modd hwn, bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gwbl ymwybodol o'r materion sy'n dod i'r amlwg ac yn gallu canolbwyntio ei adnoddau ar y meysydd hynny sydd â'r flaenoriaeth fwyaf a'r risg uchaf ar yr adeg honno.

25. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi trafod y dull hwn o weithredu gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ystod ymweliadau diweddar ac 'roedd pob un ohonynt yn ei groesawu, ynghyd â'r gwasanaeth gwell i'r cwsmer a'r ffocws gwell a ddaw yn ei sgil. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd yn gefnogol.
26. Yn hytrach na chael cynllun archwilio blynyddol 'sefydlog' traddodiadol, fe all y cynllun newid yn ystod y flwyddyn yn dilyn ymweliadau'r Pennaeth Archwilio a Risg â'r gwasanaethau a newidiadau i'r gofrestr risg gorfforaethol. Felly, nid yw'r Strategaeth hon yn darparu rhestr derfynol o'r prosiectau a weithredir yn ystod 2018/19. Yn hytrach, mae'n rhestru'r archwiliadau a nodwyd fel y prif flaenoriaethau ar hyn o bryd. Mae'r blaenoriaethau hynny wedi eu rhestru yn [Atodiad I](#).
27. Yn ogystal, unwaith y bydd canlyniadau'r rownd ddiweddaraf o Heriau Gwasanaeth yn hysbys (disgwyli'r nhw tua chanol mis Chwefror 2018), efallai'n wir y bydd blaenoriaethau eraill yn dod i'r amlwg.
28. Roedd y dull cynllunio traddodiadol yn cynnwys amcangyfrif o nifer y dyddiau a dreulid ar bob archwiliad ond byddai'r amcangyfrif hwnnw'n newid yn aml yn ystod y flwyddyn ar ôl i'r gwaith ddechrau, felly nid oedd o unrhyw fudd gwirioneddol yn y cyfnod cynllunio cychwynnol. Mae'r dull newydd yn golygu mai dim ond syniad bras a roddir o nifer y dyddiau y bydd eu hangen i wneud gwaith archwilio penodol, ond fe gytunir ar yr union nifer gyda gwasanaethau unwaith y bydd y cyfarfod sgopio cyntaf wedi ei gynnal a phan fydd y Gwasanaeth Archwilio yn gwybod yn union beth fydd y prosiect yn ei olygu.
29. Ar hyn o bryd, nid oes digon o adnoddau yn y gwasanaeth sy'n golygu bod y cynllun 50 diwrnod yn brin. Fodd bynnag, bydd newidiadau i'r amgylchedd risg yn ystod y flwyddyn, ynghyd â defnyddio cronfa wrth gefn, yn sicrhau y gellir cyflawni'r cynllun a gwneud digon o waith i'r Pennaeth Archwilio a Risg fedru cwrdd â'r gofyn i roi barn archwilio mewnol flynyddol, i fynd law yn llaw â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

### Gwaith Dilyn-i-fyny

30. Mae Safon 2500 yn nodi bod yn rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu proses ddilyn-i-fyny er mwyn monitro a sicrhau bod rheolwyr wedi gweithredu'r camau yn effeithiol neu bod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu.
31. Gall blaenoriaethau sy'n cystadlu, cyfyngiadau cyllidebol a ffactorau eraill atal rheolwyr rhag cymryd camau y cytunwyd arnynt o fewn yr amserlen y cytunwyd arni neu fel y cynlluniwyd yn flaenorol i liniaru'r risg. Pwrpas y broses dilyn-i-fyny

yw sicrhau bod y rheolwyr wedi cymryd y camau a bod y camau hynny wedi mynd i'r afael â'r Pryder / Risg.

32. Mae rheolwyr nad ydynt yn cymryd y camau y cytunwyd arnynt sydd wedi codi o ganfyddiadau archwiliadau mewnol yn agor y sefydliad i risg. Mae camau dilyn-i-fyny o gymorth i rwystro materion rhag datblygu i fod yn broblem.
33. Yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol y cytunwyd arni, byddwn yn cymryd camau dilyn-i-fyny mewn perthynas â'r holl Bryderon / Risgiau y tynnwyd sylw atynt mewn adroddiadau archwilio gyda graddfa sicrwydd 'Cyfyngedig' neu 'Isel lawn'.
34. Byddwn yn helpu'r sefydliad i dracio gweithrediad yr holl gamau ac yn cofnodi'r holl gamau y cytunwyd arnynt ar system dracio fewnol.

### Ymgynghoriad

35. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg wedi cwrdd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddfa Archwilio Cymru i drafod y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol arfaethedig.

### Adrodd

36. Bydd y Pennaeth Archwilio a Risg yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 am yr holl newidiadau.

## Mesurau Perfformiad

37. Yn allanol, lle bo'n berthnasol, byddwn yn parhau i feincnodi ein perfformiad gyda gweddill Cymru gan ddefnyddio mesurau perfformiad Grŵp Prif Archwilwyr Cymru. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd am eu priodoldeb.
38. Yn fewnol, byddwn yn mabwysiadu'r mesurau perfformiad canlynol i ddangos ein heffeithlonrwydd, ein heffeithiolrwydd a'n gwerth ychwanegol:

Mesur Perfformiad	Cyfartaledd GPAC 2015/16	Targed 2017/18	Ch3 2017/18 Gwirioneddol	Targed 2018/19
Canran y camau gweithredu a gymerwyd o fewn yr amserlen gytunedig mewn ymateb i broblemau / risgiau a nodwyd gan y gwasanaeth archwilio mewnol (Catastroffig, Mawr a Chymedrol)	d / b	90%	92%	90%
Canran yr archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amserlen a gynlluniwyd	68%	80%	90%	90%
Canran yr ymatebion gan cleientiaid sy'n mynegi o leiaf 'boddhad' gyda'r ffordd y cynhaliwyd aseiniadau archwilio	99%	100%	100%	100%
Canran yr amser y gellir codi amdano yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael (dangosydd cynhyrchiant).	67%	65%	57%	65%
Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng y cyfarfod cau a chyhoeddi'r adroddiad drafft	7.2 diwrnod	6.5 diwrnod	8.8 diwrnod	6.5 diwrnod
Gwir nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng derbyn yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol.	3.4 diwrnod	2 ddiwrnod	2.3 diwrnod	2 ddiwrnod
Canran y risgiau corfforaethol (risgiau cynhenid coch ac ambr) a adolygwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol	d / b	Newydd	Newydd	80%



## Atodiad I - Blaenoriaethau Archwilio 2018/19

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Nifer y dyddiau a gynigir yn 2018/19
<b>COFRESTR RISG GORFFORAETHOL - RISGIAU GWEDDILLIOL UCHEL A CHANOLIG</b>				
Corfforaethol	Parhad Busnes	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM10	10
Corfforaethol	Diwygio Lles	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM11	10
Corfforaethol	Diogelu Corfforaethol	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1 YM12	10
Corfforaethol	Rhaglen Ynys Ynni (gan gynnwys cynlluniau mawr megis Wylfa Newydd)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 / D2 YM15 YM19 / 20	10
Corfforaethol	Rheoli Salwch	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM29	15
Corfforaethol	CONTEST (Atal Terfysgaeth a Rhwystro Radicaleiddio)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	E1 YM34	10
Corfforaethol	Safonau Diogelwch Data Diwydiant Cardiau Talu (PCIDSS)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D1 YM41	10
Corfforaethol	Rheoli Risg	Sicrwydd cyfyngedig (Awst 2015). Gweithredwyd proses newydd ym mis Hydref 2017.	d / b	10
Corfforaethol	Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Mae'n destun adolygiad penodol gan SAC.	d / b	10
Corfforaethol	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - Gofynion Rhan 9	Deddfwriaeth proffil uchel sy'n cael effaith sylweddol ar y ffordd mae'r Cyngor yn gweithredu. Estyniad gan Lywodraeth Cymru i weithredu cyllidebau cyfun.	n / a	10
Corfforaethol	Rheoli'r Risg o Dwyll	Gofyniad PSIAS	d / b	20
<b>PENNAETH SWYDDOGAETH - SWYDDOG ADNODDAU AC ADRAN 151</b>				
Adnoddau	Adennill a Dileu Dyledion	System Ariannol Allweddol – pryderon A151	d / b	15

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Nifer y dyddiau a gynigir yn 2018/19
Adnoddau	Incwm	System Ariannol Allweddol - sicrwydd archwilio allanol	d / b	20
Adnoddau	Cyflogres	System Ariannol Allweddol - sicrwydd archwilio allanol	d / b	20
<b>PENNAETH SWYDDOGAETH – BUSNES Y CYNGOR A SWYDDOG MONITRO</b>				
Gwasanaethau Cyfreithiol	Cofrestru Tir	Cofrestr Risg Gorfforaethol	D1 YM33	10
<b>PENNAETH SWYDDOGAETH – TRAWSNEWID</b>				
TGCh	Archwiliad TG – Diogelwch Seiber	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1 YM35	15
TGCh	Archwiliad TG – Isadeiledd TG	Cofrestr Risg Gwasanaeth	D2 T2	10
Corfforaethol	Gofal Cwsmer (gan gynnwys Cyswllt Môn)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B3 YM40	15
Adnoddau Dynol	Recriwtio a Chadw Staff	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 / D2 YM5	15
<b>PENNAETH RHEOLEIDDIO A DATBLYGU ECONOMAIDD</b>				
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Gwasanaethau Hamdden	Cofrestr Risg Gorfforaethol	B3 YM39	20
<b>PENNAETH GWASANAETHAU PRIFFYRDD, GWASTRAFF AC EIDDO</b>				
Priffyrdd	Gwasanaethau Parcio - Gorfodaeth	Cynllun Peilot newydd ar waith o 2017/18 gyda sefydliad allanol yn gyfrifol am orfodaeth.	n / a	20
<b>PENNAETH TAI</b>				
Tai / Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Datblygu Tai Cyngor	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C1 YM42	15
Tai	Sipsiwn a Theithwyr (Gofynion Deddf Tai 2014)	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 / A4 YM36 / 37	10
<b>PENNAETH GWASANAETHAU OEDOLION</b>				
Oedolion	Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM32	15
<b>PENNAETH GWASANAETHAU PLANT</b>				
Gwasanaethau Plant	Plant sy'n Derbyn Gofal	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM43	20
<b>PENNAETH DYSGU</b>				
Dysgu	Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) – Eu	Cofrestr Risg Gorfforaethol	C2 YM38	10

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Nifer y dyddiau a gynnigir yn 2018/19
	gweithredu mewn Ysgolion			
Dysgu	Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw Ysgolion	Cais y Pennaeth Gwasanaeth; Cofrestr Risg y Gwasanaeth Dysgu		20
<b>DYDDIAU Y GELLIR CODI AMDANYNT AC NAD YDYNT WEDI EU CYNNWYS YN Y RHAGLEN (CYNHYRCHIOL)</b>				
	Gwaith Dilyn-i-fyny	Mae angen dilyn-i-fyny nifer o adroddiadau sicrwydd cyfyngedig		90
	Gwaith Atal Twyll Cyffredinol, Y Fenter Atal Twyll Genedlaethol, ymholiadau ac atgyfeiriadau	Gostyngwyd nifer y dyddiau oherwydd trosglwyddo gwaith y Fenter Atal Twyll Genedlaethol i'r Adain ac ar ôl trosglwyddo'r gwaith cyfatebu i'r gwasanaethau unigol yn dilyn dileu'r swydd Swyddog Atal Twyll Corfforaethol		110
	Cau Gwaith y Flwyddyn Flaenorol			20
	<b>Ardystio Grantiau:</b> Grant Gwisg Ysgol Grant Rhentu Doeth Cymru Grant Gwella Addysg Grant Datblygu Disgyblion Chweched Dosbarth a Dysgu Parhaus i Oedolion	Gofyniad Grant		25
	Ymgynghoriaeth gorfforaethol			40
	Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, gan gynnwys hyfforddiant i aelodau			40
	Adolygiad Rheoli			50
	Wrth Gefn			100
	<b>CYFANSWM</b>			<b>850</b>
<b>DYDDIAU NA ELLIR CODI AMDANYNT (ANGHYNHYRCHIOL)</b>				
	Risg ac Yswiriant			30
	Gweinyddiaeth Gyffredinol			60

Gwasanaeth / Adran	Teitl	Rheswm dros ei gynnwys	Graddfa Risg Gorfforaethol (Gweddilliol)	Nifer y dyddiau a gynigir yn 2018/19
	Datblygiad ac Adolygiad Personol, Cyfarfodydd Un i Un a Chyfarfodydd Tîm			35
	Rheoli, gan gynnwys cysylltu ag Archwilwyr Allanol a pharatoi'r cynllun archwilio			50
	Gwyliau Blyneddol (160), gan gynnwys gwyliau statudol (40) a gwyliau arbennig (15)			215
	Absenoldeb Salwch			35
	Hyfforddi a Datblygu staff, gan gynnwys sesiynau cynefino a gwersi Cymraeg			75
	<b>CYFANSWM</b>			<b>500</b>
	<b>CYFANSWM Y DYDDIAU ARCHWILIO SYDD EU HANGEN</b>			<b>1350</b>
	<b>YR ADNODDAU SYDD AR GAEL</b>			<b>1300</b>
	<b>DIFFYG</b>			<b>-50</b>
	<b>CYNHYRCHIANT</b>			<b>67%</b>

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>13 CHWEFROR 2018</b>
<b>PWNC:</b>	<b>DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19</b>
<b>SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:</b>	<b>MARC JONES</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>GARETH ROBERTS (FFÔN: EST. 2675) CLAIRE KLIMASZEWSKI (FFÔN : EST.1865)</b>
<b>Natur a rheswm dros adrodd</b>	
Ar gyfer sgrwtini – yn gyson â chyfarwyddyd proffesiynol.	

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) ar faterion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell y dylai'r Aelodau sgrwtineiddio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn iddo gael ei fabwysiadu (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad Polisi MRP Blynyddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys). Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon.
2. Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ART) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Bolisiâu Rheoli Trysorlys a'r atodlenni cysylltiedig ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgrwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hon wedi creu ART wedi'i ddogfennu, a cafwyd ei awdurdodi gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2016. Mae yna un newid arfaethedig i'r ART sydd angen ei gymeradwyo gan y Pwyllgor yma. Y newid yw i gynyddu isafswm balans arian parod o £6m i £6.5m yn unol a'r polisi arian wrth gefn diweddaraf a gafodd ei gymeradwyo.
3. O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, yr unig newid y bwriedir ei wneud i egwyddorion a pholisiâu craidd Datganiad 2017/18 yw newid Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm (DRI). Cwblhaodd Cynghorwyr Rheoli Trysorlys Allanol yr awdurdod (Link – cynt yn cael eu galw yn Capita Asset Management Services) adolygiad o bolisi DRI y Cyngor. Mae'r egwyddorion sy'n ymddangos yn eu adroddiad yn gynwysedig yn y polisi diwygedig. Bydd y polisi yn arwain at ffordd gyson at gostau DRI rhwng fenthycia cefnogol a di gefnogaeth. Mae'r costau polisi cyfredol DRI yn 4% o Ofyniad Cyllido Cyfalaf am brosiectau sy'n cael eu ariannu o fenthycia a chefnogaeth. Mae cost DRI ar asedau sy'n cael eu ariannu'n ddi gefnogaeth yn seiliedig ar fywydau economaidd yr asedau. Caniateir un o ddau ddull oes ased ar gyfer prosiectau sydd wedi eu cyllido gan fenthycia di-gefnogaeth. Nid yw'n optiw'n i godi 4% o'r GCC ar fenthyciadau di-gefnogaeth fel a ganiateir hefo benthyciadau gyda chefnogaeth. Mae'r dull oes ased yn ddull doeth ac yn cyd fynd hefo'r gost DRI yn erbyn refeniw efo oes ddisgwyledig yr ased. Felly, fe argymhellir fod y polisi DRI yn cael ei ddiweddarau fel bod y gost DRI, yn mynd ymlaen ar gyfer benthycia gyda chefnogaeth a benthycia di-gefnogaeth yn ddibynol ar oes yr ased. Bydd y cynnig yn arwain at gost DRI llai ar gyfer y 10 i 15 mlynedd nesaf, ond fydd yn uwch hyd at blwyddyn 50. Bydd y polisi diwygedig yn myned yn ôl i 2008 i sicrhau fod gost yn gywir ac yn gyson rhwng y gost DRI ar gyfer gwariant wedi ei gyllido drwy fenthycia gyda chefnogaeth a benthycia di-gefnogaeth. Gweler Atodiad 2 ar gyfer y polisi diwygedig. Mae hwn yn amodol i ymgynghoriad a chymeradwyaeth gan yr Archwiliwyr Allanol.

4. Cyfanswm benthyciadau allanol y Cyngor ar 7 Tachwedd 2017, oedd £111.4m, disgwylir mai £118.0m fydd y sefyllfa ar 31 Mawrth, 2018. Mae'r benthyciadau yn cynnwys rhai aeddfed sefydlog a rhai blwydd-dal sefydlog. Ar 7 Tachwedd 2017, roedd y benthyciadau aeddfed sefydlog yn £111.2m gydag oes gyfartalog o 23 blynedd a graddfa log o 5.15% ar gyfartaledd. Roedd y benthyciadau blwydd-dal sefydlog yn £0.2m gydag oes gyfartalog o 8 mlynedd a graddfa log o 9.44% ar gyfartaledd. Rhagwelir mai £5.9 fydd cost benthycia, sef y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol, ar gyfer 2017/18 a hynny ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (£3.9m) a'r CRT (£2.0m). Yn ogystal, bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP), sef taliad refeniw i dalu elfen o'r gwariant cyfalaf sydd wedi cronni bob blwyddyn (Atodiad 2). Yn 2017/18, bydd y taliad hwn yn £4.7m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (£3.8m) a'r CRT (£0.9m). Golyga hyn y bydd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (sef yr angen sylfaenol i fenthycia i gyllido'r rhaglen gyfalaf) yn £138.1m ar ddiwedd y flwyddyn ac y bydd y Cyngor wedi benthycia'n fewnol £20.1m erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar 7 Tachwedd 2017, roedd cyfanswm buddsoddiadau'r Cyngor yn £13.4m, gyda graddfa dychwelyd gyfartalog o 0.15% a'r cyfanswm cyfartalog ar gyfer y flwyddyn hyd yma yw £16.6m. Wrth i fenthycia mewnol gynyddu, mae balansau buddsoddiadau'n lleihau.

## 5. Argymhellion:

- Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol hwn;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (gan gynnwys y Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys) [Atodiad A] ar gyfer 2018/19;
- Cyflwyno unrhyw argymhellion a/neu sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith; a
- Cymeradwyo'r newid yn ART, i gynyddu'r isafswm balans arian parod o £6m i £6.5m i adlewyrchu'r cynydd yn isafswm balance yr arian wrth gefn cyffredinol.

**DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS****DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD POLISI AR Y DDARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2018/19****1. Rhagarweiniad****1.1 Cefndir**

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i gyfanswm yr incwm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigonol i gwrdd â gwariant a hefyd, rhaid i'r arian gwirioneddol a ddaw i mewn Fod yn ddigonol i gydbwysu'r arian a fydd yn mynd allan. Rhan allweddol o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrth-bartion neu offerynnau risg isel sy'n cydfynd â pholisi'r Cyngor i leihau risg gan sicrhau hylifedd digonol cyn ystyried y dychweliad ar fuddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthycar'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

Yn benodol, rhaid i awdurdod lleol gyfrifo ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y costau refeniw sy'n llifo o benderfyniadau ynghylch cyllido cyfalaf. Mae hyn yn golygu cyfyngu:-

- cynnydd mewn costau refeniw yn sgil ffioedd llog uwch, oherwydd benthycia ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf, ac
- unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd, i lefel sy'n fforddiadwy o ran incwm rhagamcanedig y Cyngor.

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio'r polisiau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys. Gweler Atodiad 10.

**1.2 Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau**

Rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn sy'n ymgorffori amrediad o bolisiau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gael eu sgriftnieddio'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon.

**Dangosyddion Pwyllgor a Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Trysorlys** - Mae'r adroddiad cyntaf a'r un pwysicaf yn cynnwys:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (canllawiau ynghylch sut y dylid rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei drosglwyddo i refeniw dros gyfnod o amser); a
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o'r polisiau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

**Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn** - Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch cynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio'r dangosyddion pwylllog yn ôl yr angen gan nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ynteu a oes angen adolygu unrhyw bolisiau.

**Adroddiad Trysorlys Blyneddol** – Yn hwn, ceir manylion ynghylch detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau rheoli trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

### **1.3 Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2018/19**

Mae'r strategaeth ar gyfer 2018/19 yn ymwneud â dau brif faes:-

#### **Materion Cyfalaf**

- Y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwylllog; a
- y strategaeth darpariaeth refeniw isaf (DRI).

#### **Materion Rheoli Trysorlys**

- y sefyllfa gyfredol o ran y trysorlys;
- dangosyddion rheoli trysorlys a fydd yn cyfyngu ar risg a gweithgareddau trysorlys y Cyngor;
- y rhagolygon o ran cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthycu;
- polisi ar fenthycu cyn i'r angen godi;
- ail-raglennu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi;
- polisi teilyngdod credyd; a
- polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'r elfennau hyn yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Côt Darbodus CIPFA, Canllawiau DRI Llywodraeth Cymru, Côt Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

### **1.4 Hyfforddiant**

Dan Côt CIPFA mae'n ofynnol fod y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod Aelodau â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol mewn materion rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Er mwyn cefnogi aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn eu swyddogaeth sgrwtini, cafodd aelodau'r pwyllgor hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig ar 9 Tachwedd 2016. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu pan fydd angen hynny.

Mae anghenion hyfforddi swyddogion rheoli trysorlys yn cael eu hadolygu ac yn cael sylw'n rheolaidd.

### **1.5 Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys**

Mae'r Cyngor yn defnyddio Y Grŵp Link fel ymgynghorwyr allanol ar faterion rheoli trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, cafodd y tendr ar gyfer y gwasanaeth ymgynghori ar Reoli Trysorlys ei hysbysebu ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn y cytundeb am 2 flynedd. Capita Asset Services gyflwynodd y tendr llwyddiannus.



Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn fater i'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau nad yw'n dibynnu gormod ar ein darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'n cydnabod hefyd bod gwerth mewn cyflogi darparwyr allanol ar gyfer gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn cael mynediad i adnoddau a sgiliau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd hefyd.

Cafodd Capita Asset Service ei werthu i Grŵp Y Link, ond, ni fydd y gwasanaethau a ddarperir yn newid o dan y berchnogaeth newydd.

## **1.6 Mabwysiadu'r Côt**

It is also worth noting the **contradiction within the Bank of England** between action in 2016 and in 2017 by **two of its committees**. After the shock result of the EU referendum, the **Monetary Policy Committee (MPC)** voted in August 2016 for emergency action to cut Bank Rate from 0.50% to 0.25%, restarting £70bn of QE purchases, and also providing UK banks with £100bn of cheap financing. The aim of this was to lower borrowing costs, stimulate demand for borrowing and thereby increase expenditure and demand in the economy. The MPC felt this was necessary in order to ward off their expectation that there would be a sharp slowdown in economic growth. Instead, the economy grew robustly, although the Governor of the Bank of England strongly maintained that this was because the MPC took that action. However, other commentators regard this emergency action by the MPC as being proven by events to be a mistake. Then in 2017, we had the **Financial Policy Committee (FPC)** of the Bank of England taking action in June and September over its concerns that cheap borrowing rates, and easy availability of consumer credit, had resulted in too rapid a rate of growth in consumer borrowing and in the size of total borrowing, especially of unsecured borrowing. It, therefore, took punitive action to clamp down on the ability of the main banks to extend such credit! Indeed, a PWC report in October 2017 warned that credit card, car and personal loans and student debt will hit the equivalent of an average of £12,500 per household by 2020. However, averages belie wide variations in levels of debt with much higher exposure being biased towards younger people, especially the 25 -34 year old band, reflecting their lower levels of real income and asset ownership.

One key area of risk is that consumers may have become used to cheap rates since 2008 for borrowing, especially for mortgages. It is a major concern that **some consumers may have over extended their borrowing** and have become complacent about interest rates going up after Bank Rate had been unchanged at 0.50% since March 2009 until falling further to 0.25% in August 2016. This is why forward guidance from the Bank of England continues to emphasise slow and gradual increases in Bank Rate once they start. However, consumer borrowing is a particularly vulnerable area in terms of the Monetary Policy Committee getting the pace and strength of Bank Rate increases right - without causing a sudden shock to consumer demand, confidence and thereby to the pace of economic growth.

Moreover, while there is so much uncertainty around the Brexit negotiations, consumer confidence, and business confidence to spend on investing, it is far too early to be confident about how the next two to three years will actually pan out.

**EUROPEAN UNION** - Economic growth in the EU, (the UK's biggest trading partner), had been lack lustre for several years after the financial crisis despite the ECB eventually cutting its main rate to -0.4% and embarking on a massive programme of QE. However, growth picked up in 2016 and has now gathered substantial strength and momentum thanks to this stimulus. GDP growth was 0.5% in quarter 1 (2.0% y/y), 0.6% in quarter 2 (2.3% y/y) and +0.6% in quarter 3 (2.5% y/y). However, despite providing massive monetary stimulus, the European Central Bank is still struggling to get inflation up to its 2% target and in October inflation was 1.4%. It is therefore unlikely to start on an upswing in rates until possibly 2019. It has, however, announced that it will slow down its monthly QE purchases of debt from €60bn to €30bn from January 2018 and continue to at least September 2018.

**UNITED STATES OF AMERICA** - Growth in the American economy was notably erratic and volatile in 2015 and 2016. 2017 is following that path again with quarter 1 coming in at only 1.2% but quarter 2 rebounding to 3.1% and quarter 3 coming in at 3.0%. Unemployment in the US has also fallen to the lowest level for many years, reaching 4.2%, while wage inflation pressures, and inflationary pressures in general, have been building. The Fed has started on a gradual upswing in rates with four increases in all and three increases since December 2016; and there could be one more rate rise in 2017, which would then lift the central rate to 1.25 – 1.50%. There could then be another four increases in 2018. At its September meeting, the Fed said it would start in October to gradually unwind its \$4.5 trillion balance sheet holdings of bonds and mortgage backed securities by reducing its reinvestment of maturing holdings.

**CHINA.** Economic growth has been weakening over successive years, despite repeated rounds of central bank stimulus; medium term risks are increasing. Major progress still needs to be made to eliminate excess industrial capacity and the stock of unsold property, and to address the level of non-performing loans in the banking and credit systems.

**JAPAN** has been struggling to stimulate consistent significant growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy.

### **Brexit timetable and process**

- *March 2017: UK government notifies the European Council of its intention to leave under the Treaty on European Union Article 50*
- *March 2019: initial two-year negotiation period on the terms of exit. In her Florence speech in September 2017, the Prime Minister proposed a two year transitional period after March 2019.*
- *UK continues as a full EU member until March 2019 with access to the single market and tariff free trade between the EU and UK. Different sectors of the UK economy will leave the single market and tariff free trade at different times during the two year transitional period.*
- *The UK and EU would attempt to negotiate, among other agreements, a bi-lateral trade agreement over that period.*
- *The UK would aim for a negotiated agreed withdrawal from the EU, although the UK could also exit without any such agreements in the event of a breakdown of negotiations.*
- *If the UK exits without an agreed deal with the EU, World Trade Organisation rules and tariffs could apply to trade between the UK and EU - but this is not certain.*
- *On full exit from the EU: the UK parliament would repeal the 1972 European Communities Act.*
- *The UK will then no longer participate in matters reserved for EU members, such as changes to the EU's budget, voting allocations and policies.*

Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Capita Asset Services

## Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2010) yn rhoi diffiniad o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig.

Mae paragraff 5.1 y Canllawiau yn dweud bod buddsoddiad yn un penodedig os yw'n cwrdd â phob un o'r isod:-

- “(a) the investment is denominated in sterling and any payments or repayments in respect of the investment are payable only in sterling; and*
- (b) the investment is not a long-term investment (\*); and*
- (c) the making of the investment is not defined as capital expenditure by virtue of regulation 20(1)(d) of the Local Authorities (Capital Finance and Accounting) (Wales) Regulations 2003 [SI 3239 as amended]; and*
- (ch) the investment is made with a body or in an investment scheme of high credit quality (\*\*); or with one of the following public-sector bodies:*
  - (i) the United Kingdom Government*
  - (ii) a local authority in England or Wales (as defined in section 23 of the 2003 Act) or a similar body in Scotland or Northern Ireland*
  - (iii) a parish or community council.”*

Mae'r Canllawiau hefyd yn dweud bod unrhyw fuddsoddiad nad yw'n cwrdd â'r diffiniad ym mharagraff 5.1 yn cael ei gyfrif fel buddsoddiad amhenodedig.

Yn ystod 2018/19 nid yw'r Cyngor yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiadau mewn arian gwledydd tramor, na gyda chyrrff credyd isel, nac unrhyw fuddsoddiadau a ddiffinnir fel gwariant cyfalaf gan y ddeddfwriaeth (megis cyfranddaliadau mewn cwmnïau). Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly yn cael eu cyfyngu i (i) buddsoddiadau tymor hir; a (ii) adneuo'n gyda banciwr y Cyngor i ddibenion trafodaethol os yw'n methu a chwrdd â'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y credyd; yn yr achos hwn, caiff balansau eu cyfyngu i'r eithaf lle mae hynny'n bosib.

Mae'r tabl yn Atodiad 6 yn nodi'r meini prawf a'r cyfyngiadau buddsoddi ar gyfer y gwahanol gategoriâu o fuddsoddiadau y bwriedir eu defnyddio yn ystod 2018/19 ac sydd felly'n sail ar gyfer y rhestr benthycyca a gymeradwyir.

Bydd raid i'r Cyngor Sir gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig yn ystod y flwyddyn i gategoriâu o fuddsoddiadau penodedig ac amhenodedig a ddefnyddir ac/neu i'r meini prawf graddfeydd credyd / cyfyngiadau buddsoddi.

“\*\* Section 2.4 of the 'Guidance' defines a long term investment as "any investment other than (a) one which is due to be repaid within 12 months of the date on which the investment was made or (b) one which the local authority may require to be repaid within that period.”

\*\* For the purposes of high credit quality the 'Guidance' states that "for the purposes of paragraph 5.1(d), Welsh ministers recommend that the Strategy should define high credit quality (and where this definition refers to credit ratings, paragraph 6.1 (\*\*\*) is relevant)."

\*\*\* Paragraph 6.1 of the 'Guidance' recommends that "the Strategy should set out the authority's approach to assessing the risk of loss of investments, making clear in particular:

- (a) to what extent, if any, risk assessment is based upon credit ratings issued by one or more credit rating agencies;*
- (b) where credit ratings are used, how frequently credit ratings are monitored and what action is to be taken when ratings change; and*
- (c) what other sources of information on credit risk are used, additional to or instead of credit ratings.”*

The table in Appendix 6 of this strategy sets out what this Council defines as high credit quality and the associated investment criteria and limits and section 4.2 of this strategy sets out the Council's creditworthiness approach.

**Meini Prawf Gwrthbartion**

Categori	Graddfa Credyd Tymor Byr (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Byr (Standard & Poor's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Fitch)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Moody's)	Graddfa Credyd Tymor Hir (Standard & Poor's)	Terfyn Arian	Terfyn Amser
Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (sydd heb eu gwladoli neu sydd wedi eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 mlynedd
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r Deyrnas Gyfunol sydd wedi eu Gwladoli / wedi eu Gwladoli'n Rhannol	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£10m	364 diwrnod
Llywodraeth Ganolog y Deyrnas Gyfunol (waeth beth fo'r raddfa credyd)	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	Dim uchafswm	Dim uchafswm
Awdurdodau Lleol y Deyrnas Gyfunol **	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	d/b	£5m	364 diwrnod
Cronfeydd Marchnad Arian	d/b	d/b	d/b	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

\* fel y diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid a Chyfrifo Cyfalaf) (Cymru) 2003

\*\* fel y diffinnir yn Neddf Llywodraeth Leol 2003

**Nodiadau ac Eglurhad****(1) Terfyn Arian Parod**

- (i) Mae'r terfynau arian yn berthnasol i'r gwrthbarti unigol ac i'r grŵp cyffredinol y mae'n perthyn iddo. (e.e. ar gyfer y banciau o fewn Grŵp Bancio Lloyds plc (sef Bank of Scotland plc a Lloyds Bank plc), terfyn buddsoddi yn berthnasol i fanciau hynny yn unigol a'r grŵp bancio yn ei gyfanrwydd);
- (ii) Y terfyn arian cyffredinol ar gyfer adneuo'n dros 364 o ddyddiau yw £15m.

**(2) Terfyn Amser**

- (i) I fyny at, a chan gynnwys y cyfnod a nodwyd.

**(3) Arian Gwledydd Tramor**

- (i) Bydd buddsoddiadau mewn gwledydd tramor wedi eu cyfyngu i'r rheini a chanddynt raddfa credyd sofran AA- (Fitch) neu gyfatebol (o'r asiantaethau a gyfeirwyd atynt yn adain 4.3 or strategaeth hon) graddfa credyd sofran (yn seiliedig ar y cyfenwador lleiaf) a hyd at uchafswm o £10 miliwn fesul gwlad dramor.
- (ii) Ni chaniateir buddsoddi mewn gwledydd pan mae ei raddfa sofran is ddim yn AA- neu'n uwch. Ni fydd unrhyw gyfyngiad gan wlad yn berthnasol i fuddsoddiadau yn y Deyrnas Gyfunol waeth beth fo'r raddfa credyd sofran.
- (iii) Ni fydd Is-gwmnïau grwpiau bancio tramor fel arfer yn cael eu hasesu yn unol â mamwlad y sefydliad riant. Fodd bynnag, bydd Santander UK plc (is-gwmni Bancio Santander yn Sbaen) yn cael ei gyfrif fel banc yn y Deyrnas Gyfunol oherwydd eu masnach freintiau sylweddol yn y Deyrnas Gyfunol a natur hyd fraich y berthynas rhwng y riant a'r is-gwmni.
- (iv) Ni fydd meini prawf graddfeydd credyd sofran a chyfyngiadau gwledydd tramor yn berthnasol i fuddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog (e.e. Banc Buddsoddi Ewrop a Banc y Byd) na sefydliadau rhyngwladol (e.e. yr Undeb Ewropeaidd).

**4. Graddfa Credyd yn Gostwng**

Os bydd graddfa credyd yn gostwng ac yn golygu bod y gwrthbarti yn is na'r meini prawf y mae'n rhaid cwrdd â nhw ar gyfer buddsoddi, rhoddir y gorau i ddefnyddio'r gwrthbarti cyn gynted ag y bydd yn ymarferol.

Os bydd y Swyddog Adran 151 yn dymuno parhau i fuddsoddi gyda'r gwrthbarti hwnnw gofynnir am ganiatâd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac un aelod arall o ddewis y Cadeirydd a bydd raid i'r ddau ohonynt gymeradwyo. Adroddir ar hynny fel sy'n briodol ar yr adeg gyfleus nesaf.

**Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddi [yn gywir fel ar 24 Hydref 2017]**

*This list is based on those countries which have sovereign ratings of AA- or higher (we show the lowest rating from Fitch, Moody's and S&P) and also, (except - at the time of writing - for Norway and Luxembourg), have banks operating in sterling markets which have credit ratings of green or above in the Capita Asset Services credit worthiness service.*

**AAA**

- Awstralia
- Canada
- Denmarc
- Yr Almaen
- Lwcsembwrg
- Yr Iseldiroedd
- Norwy
- Singapore
- Sweden
- Y Swistir

**AA+**

- Y Ffindir
- Hong Kong
- U.D.A

**AA**

- Abu Dhabi
- Ffrainc
- Y D.U

**AA-**

- Gwlad Belg
- Qatar

## Cynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys

### (i) Cyngor Sir

- Cymeradwyo'r Gyllideb;
- Cymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a Polisi MRP, Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol a diwygiadau;
- Cymeradwyo diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd gan y Cyngor;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau; ac
- Gweithredu ar argymhelliad a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio a/neu'r Pwyllgor Gwaith.

### (ii) Pwyllgor Gwaith

- Ystyried y gyllideb;
- Cymeradwyo rhannu'r cyfrifoldebau;
- Cymeradwyo dewis o ddarparwyr gwasanaeth allanol a chytuno ar dermau'r apwyntiad;
- Derbyn ac adolygu adroddiadau monitro ar bolisiâu Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau a gwneud argymhellion i'r Cyngor Sir fel yn briodol;
- Gweithredu ar argymhellion a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Archwilio.

### (iii) Pwyllgor Archwilio

- Sgrwtini o faterion Rheoli Trysorlys, fel sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys a Pholisi'r Cyngor a'r Rheoli Trysorlys. Mae'n cynnwys:-
  - sgrwtineiddio Datganiad Strategaeth Blynyddol ar Reoli Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi Blynyddol MRP, Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol;
  - sgrwtineiddio cynigion am ddiwygiadau i'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys Blynyddol, Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi Blynyddol MRP, Polisi Rheoli Trysorlys Blynyddol ac Arferion Rheoli Trysorlys a'r diwygiadau i'r cymalau a fabwysiadwyd a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol;
  - derbyn a sgrwtineiddio unrhyw gynigion yn ymwneud â Rheoli Trysorlys sydd angen penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith neu'r Cyngor Sir;
  - derbyn a sgrwtineiddio adroddiadau monitro polisiâu Rheoli Trysorlys, arferion a gweithgareddau a gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir fel bo'n briodol.

## Rôl Rheoli Trysorlys y Swyddog Adran 151

### Mae rôl y Swyddog (cyfrifol) Adran 151 yn cynnwys:

- argymell cymalau, polisi/arferion rheoli trysorlys i'w cymeradwyo, gan eu hadolygu'n rheolaidd, a monitro cydymffurfiaeth;
- cyflwyno adroddiadau polisi rheoli trysorlys rheolaidd;
- cyflwyno cyllidebau ac amrywiaethau cyllideb;
- derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth rheoli;
- adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a'r rhannu effeithiol o gyfrifoldebau o fewn y swyddogaeth rheoli trysorlys;
- sicrhau digonolrwydd archwilio mewnol, a chysylltu ag archwilwyr allanol; ac
- argymell apwyntio darparwyr gwasanaeth allanol.
- Cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu a gweinyddu'r penderfyniadau trysorlys, yn cynnwys y penderfyniadau ar fenthycu, buddsoddi ac ariannu, wedi cael ei ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiadau polisi'r Cyngor ac Arferion Rheoli Trysorlys.

**Côd Ymarfer : Rheoli Trysorlys CIPFA yn y Gwasanaethau Cyhoeddus**

Egwyddorion allweddol CIPFA *Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus : Côd Ymarfer (Cyfrol 2011)*, fel y disgrifir yn Adran 4 o'r Côd hwnnw yw:-

**Egwyddor Allweddol 1:**

Dylai sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus roi ar waith amcanion ffurfiol a chynhwysfawr, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ar gyfer rheolaeth effeithiol a rheoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys.

**Egwyddor Allweddol 2:**

Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir bod rheolaeth effeithiol a rheoli risgiau yn brif amcanion eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn gorwedd yn glir o fewn eu sefydliadau. Dylai eu harchwaeth am risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer y rheolaeth bwyllog o'r risgiau hynny, a dylai sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd wrth fuddsoddi arian.

**Egwyddor Allweddol 3:**

Dylent gydnabod bod mynd ar drywydd gwerth am arian ym maes rheolaeth trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn arfau dilys ac yn bwysig i sefydliadau cyfrifol i gyflogi i gefnogi eu busnes ac amcanion y gwasanaeth; a bod, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol eu polisïau rheoli trysorlys a'i arferion yn adlewyrchu hyn.

Aiff y Côd ymlaen i ddweud bod:

*"Wrth lunio'r argymhellion hyn mae CIPFA yn cydnabod yr anawsterau o ymdrechu i gael rheolaeth effeithiol ar risg, tra ar yr un pryd yn anelu at sicrhau gwerth am arian. Nid yw'r Côd yn ceisio bod yn rhagnodol ynghylch sut y dylai'r mater hwn gael ei drin, yn enwedig gan ei fod yn cynnwys amrywiaeth mor eang o sefydliadau. Fodd bynnag, lle bo hynny'n briodol, mae nodiadau cyfarwyddo sector benodol yn rhoi cyngor addas. Mae CIPFA yn cydnabod nad oes unrhyw ddau sefydliad yn y gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fynd i'r afael â'r mater hwn yn union yr un modd, ond mae llwyddiant yn y maes rheoli'r trysorlys yn debygol o gael ei weld, yn enwedig yn nhermau gwerth am arian fel dangosydd o swyddogaeth rheoli'r trysorlys sy'n perfformio'n gryf".*

*"Er ei fod yn dyddio'n ôl i 1991, mae CIPFA yn ystyried bod yr adroddiad gan y Trysorlys a Phwyllgor y Gwasanaeth Sifil o Dŷ'r Cyffredin ar gau'r BCCI yn dal yn berthnasol, ac yn yr adroddiad fe ddywedwyd :*

*"Wrth gydbwyso'r risg yn erbyn dychweliad, dylai awdurdodau lleol fod yn fwy pryderus i osgoi risgiau nag i wneud yr elw mwyaf."*

*"Yn wir, cefnogwyd y farn hon gan adroddiad y Pwyllgor Dethol Cymunedau a Llywodraeth Leol i fuddsoddiadau awdurdodau lleol yn 2009."*

*"Barn CIPFA yw trwy'r holl wasanaethau cyhoeddus y flaenoriaeth yw diogelu cyfalaf yn hytrach na gwneud yr elw mwyaf. Nid yw osgoi pob risg yn briodol nac yn bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid cael cydbwysedd gyda chyfrifoldeb brwd am arian cyhoeddus."*

Felly, bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu'r pedwar cymal canlynol fel rhan o'r rheolau sefydlog :

1. Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel conglfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys:-
  - Datganiad polisi ar reoli'r trysorlys, sy'n datgan y polisiau, amcanion a'r dull o reoli risg ei weithgareddau rheoli trysorlys; a
  - Arferion rheoli trysorlys addas (ARhT) yn nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisiau a'r amcanion hynny, ac yn rhagnodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi ac ARhT yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o'r Côd, yn amodol yn unig i newid lle bo angen adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Côd.

2. Bydd y Cyngor Sir, Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau ar bolisiau, ymarferion a gweithgareddau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, yn cynnwys Strategaeth Blynyddol a Chynllun o flaen llaw y flwyddyn, adroddiadau chwarterol (yn cynnwys adroddiad adolygu canol blwyddyn) a hefyd adroddiad blynyddol ar ôl cau lawr, mewn ffurf sydd wedi ei ragnodi gan y TMPs.
3. Mae'r Cyngor Sir/Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am weithredu ar Bolisiau ac ymarferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â chynllun Dirprwyo Rheolaeth Trysorlys. Mae'r Swyddog Cyllid 151 yn gyfrifol am weithredu a gweinyddu penderfyniadau Rheoli Trysorlys, fydd yn gweithio yn unol hefo Datganiad Polisi'r Awdurdod a'r TMPs ac os ydi hi/fo yn aelod o CIPFA, CIPFA Standard of Professional Practice on Treasury Management.
4. Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau y ceir craffu effeithiol ar y polisiau rheoli'r trysorlys, yr ymarferion a'r perfformiad.



**Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys**

1. Mae CIPFA yn diffinio ei weithgareddau rheoli'r trysorlys fel : “Rheoli buddsoddiadau'r Awdurdod a llif arian, ei fancio, trafodion marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny, a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny”.
2. Mae'r sefydliad hwn o'r farn mai nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yw'r prif feini prawf ar gyfer mesur effeithlonrwydd ei weithgareddau rheoli'r trysorlys. Yn unol â hynny, bydd dadansoddi ac adrodd ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn canolbwyntio ar eu goblygiadau risg i'r sefydliad, ac unrhyw offerynnau ariannol a wnaed i reoli'r risgiau hyn.
3. Mae'r sefydliad hwn yn cydnabod y bydd rheolaeth effeithiol o'r trysorlys yn ei gefnogi wrth gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Mae felly wedi ymrwymo i egwyddorion cyflawni gwerth am arian y maes rheoli'r trysorlys, a defnyddio technegau mesur perfformiad cynhwysfawr ac addas, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol.

**DANGOSYDDION PWYLLOG A THRYSORLYS  
GOSOD Y GYLLIDEB 2018/19**

**ATODIAD 11**

**Rhif Dangosydd**

Fforddiadwyaeth		2016/17 Alldro	2017/18 Amcangyfrif	2018/19 Cynnig	2019/20 Cynnig	2020/21 Cynnig
<b>1,2</b>	Amcangyfrif o [neu wir] gymhareb costau dyled i ffrwd referniw net:					
	Cronfa'r Cyngor	6.20%	6.25%	5.12%	5.47%	5.73%
	Cyfrif Refeniw Tai (gan gynnwys y setliad)	19.82%	23.02%	20.15%	15.88%	15.42%
	Cyfanswm	7.68%	8.14%	6.86%	6.86%	7.10%
<b>3</b>	Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar y Dreth Gyngor <i>y Dreth Gyngor ar fand D</i>			£0.00	£21.16	£56.31
<b>4a</b>	Amcangyfrifon o effaith ymylol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Renti Tai <i>ar gyfartaledd rhent wythnosol</i>			£48.74	£44.57	£45.53
<b>4b</b>	Amcangyfrifon o effaith ymylol benthyciadau cyfalaf ar Renti Tai ir CRT <i>ar gyfartaledd rhent wythnosol</i>			£0.00	£17.25	£16.02
<b>Pwyll</b>						
<b>5</b>	Dyled gros a'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR)	✓	✓	✓	✓	✓
	<i>Ydy dyled allanol gros yn llai na'r CFR am y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw gynnydd am y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flynedd ddilynol?</i>					
<b>Gwariant Cyfalaf</b>			<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>6,7</b>	Amcangyfrif o [neu wir] Wariant Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	28,030	22,030	38,810	34,350	16,060
	Cyfrif Refeniw Tai	8,610	11,490	13,820	15,200	15,340
	Cyfanswm	36,640	33,520	52,630	49,550	31,400
<b>8,9</b>	Amcangyfrif o [neu wir] Gofyniad Cyllido Cyfalaf					
	Cronfa'r Cyngor	91,510	96,410	108,120	121,880	132,950
	Cyfrif Refeniw Tai	42,500	41,650	40,820	43,500	45,930
	Cyfanswm	134,010	138,060	148,940	165,380	178,880
<b>Dyled Allanol</b>			<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>10</b>	Terfyn Awdurdodedig					
	: Benthycia Cyffredinol	166,000	166,000	174,000	190,000	203,000
	: Ymrwymadau tymor hir eraill	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000
	: Cyfanswm	169,000	169,000	177,000	193,000	206,000

<b>11</b>	Terfyn CRT ar ddyledion:					
	Terfyn CRT ar ddyledion	58,533	58,533	58,533	58,533	58,533
	GCC CRT	42,500	41,650	40,820	43,500	45,930
	Uchdwr CRT	16,033	16,883	17,713	15,033	12,603
<b>12</b>	Ffin Ymarferol					
	: Benthycu Cyffredinol	161,000	161,000	169,000	188,000	201,000
	: Ymrwymiadau tymor hir eraill	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000
	: Cyfanswm	164,000	164,000	172,000	191,000	204,000
<b>13</b>	Gwir Ddyled Allanol	117,110				
<b>Rheoli'r Trysorlys</b>		<b>2015/16 Alldro</b>	<b>2016/17 Amcangyfrif</b>	<b>2017/18 Cynnig</b>	<b>2018/19 Cynnig</b>	<b>2019/20 Cynnig</b>
<b>14</b>	Fod yr Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.	✓	✓	✓	✓	✓
		<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>	<b>£000</b>
<b>15</b>	Dyled Gros a Net	100%	100%	100%	100%	100%
	<i>Terfyn uchaf ar y ddyled net fel cyfran o'r ddyled gros</i>					
<b>16</b>	Y terfyn uchaf ar raddfeydd sefydlog : <i>(prifswm net neilltuol)</i>	143,000	166,000	167,000	169,000	171,000
<b>17</b>	Y terfyn uchaf ar raddfeydd amrywiol: <i>(prifswm net neilltuol)</i>	20,000	20,000	20,000	20,000	20,000
<b>18</b>	Terfyn cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am gyfnodau dros 364 diwrnod: <i>(bydd unrhyw fuddsoddiadau tymor hir a ddygir ymlaen o flynyddoedd blaenorol yn cael eu cynnwys yn nherfyn bob blwyddyn)</i>	15,000	15,000	15,000	15,000	15,000
			<b>2017/18 Terfyn uchaf</b>		<b>2017/18 Terfyn isaf</b>	
<b>19</b>	Terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu'r benthycu graddfa sefydlog					
	• dan 12 mis		20%	0%		
	• 12 mis ac o fewn 24 mis		20%	0%		
	• 24 mis ac o fewn 5 mlynedd		50%	0%		
	• 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd		75%	0%		
	• 10 mlynedd a throsodd		100%	0%		
			Dim newid	Dim newid		

**Geirfa a gwybodaeth ar Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys (Cyfeirio at Atodiad 11)****Geirfa****GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased nad yw'n gyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol nad yw'n gyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

**CYLLIDO CYFALAF**

Arian sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycu, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

**GOFYNIAD CYLLIDO CYFALAF**

Mae cyfanswm gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n ddyledus a heb eu talu'n barod nall a'i o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn hanfodol, dyma fesuriad o fenthycu angenrheidiol y Cyngor.

**RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

**DERBYNIADAU CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau eraill nad ydynt yn gyfredol eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

**CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

**CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

**LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**

Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronodig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau a rhywmedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost, gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

**ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

**DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

**BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycu ei hun.

**GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

**GRANT CYNNAL REFENIW**

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

**BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**

Mae'r Cyngor yn benthycu arian i ariannu rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad ariannu ar gyfer y Cyngor.

**BENTHYCA DROS DRO**

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

**BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**

Gall y Cyngor fenthycu arian ychwanegol i'r benthycu â chefnogaeth y Llywodraeth i ariannu ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

## Gwybodaeth am Ddangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys

### A) Fforddiadwyaeth

#### 1,2. Cymhareb y costau cyllido i'r ffrwd referniw net

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad o ran cost cyfalaf (costau benthycia a chostau ymrwymadau tymor hir eraill net o'r incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd referniw net.

Mae'r amcangyfrifon ynghylch costau cyfalaf yn cynnwys ymrwymadau cyfredol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

#### 3. Effaith incrementiadd penderfyniadau mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf ar y dreth gyngor

Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r costau referniw sy'n gysylltiedig â newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gyfalaf dair blynedd a argymhellwyd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb o gymharu ag ymrwymadau a chynlluniau cyfredol y Cyngor sydd eisoes wedi eu cymeradwyo. Mae'r rhagdybiaethau yn seiliedig ar y gyllideb ond yn anorffod, byddant yn cynnwys rhywfaint o amcangyfrifon megis lefel y gefnogaeth o du'r Llywodraeth nad ydynt yn cael eu cyhoeddi dros gyfnod o dair blynedd.

#### 4(a) Amcangyfrif o effaith incrementaidd y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â buddsoddiadau cyfalaf ar lefelau rhenti tai

Yr un modd â'r claudriad ar gyfer y dreth gyngor, mae'r dangosydd hwn yn nodi'r tueddiad yng nghost y newidiadau arfaethedig yn y rhaglen gyfalaf dai a argymhellwyd yn yr adroddiad hwn o gymharu ag ymrwymadau a chynlluniau cyfredol y Cyngor sydd eisoes wedi eu cymeradwyo ac wedi eu mynegi fel yr effaith a gânt ar lefelau rhenti wythnosol.

Mae'r dangosydd hwn yn dangos effaith referniw ar unrhyw newidiadau newydd y bwriedir eu gwneud er y bydd unrhyw effaith arwahanol yn cael ei chyfyngu gan reoliadau rhent.

#### 4(b) Amcangyfrifon o effaith ymylol benthyciadau cyfalaf ar Renti Tai ir CRT.

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y gost ychwanegol o fenthycy gan y CRT ar swm rhent.

### B) Bod yn ddarbodus

#### 5. Dyled gros a'r GCC

Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw'r ddyled gros, heblaw yn y tymor byr, yn mynd yn uwch na'r GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon am unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2018/19 a'r ddwy flynedd ariannol ddilynol. Rhoddir hyn peth hyblygrwydd ar gyfer benthycia buan cyfyngedig yn y dyfodol, ond yn sicrhau ni ymgwymerir ag unrhyw fenthycia ar gyfer dibenion referniw.

### C) Gwariant cyfalaf

#### 6,7 Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf

Dyma'r Gwariant Cyfalaf a ragamcenerir o 2017/18 i 2020/21 ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf 2017/18 a'r Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2018/19.

## 8,9 Anghenion benthycyca'r Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

Yr ail ddangosydd darbodus yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol gweddilliol nad ydyw hyd yma wedi cael ei dalu amdano o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn sylfaenol, mesur ydyw o anghenion benthycyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf nad ydyw wedi ei dalu amdano ar unwaith, yn cynyddu lefel y GCC.

Nid yw'r GCC yn cynyddu i lefel amhenodol, oherwydd mae'r ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn gyffredinol, yn gostwng yr angen benthycyca yn unol ag oes pob ased.

Mae'r GCC yn cynnwys unrhyw ymrwymadau tymor hir eraill (e.e. cynlluniau PFI, prydlesau ariannol). Er bod y rhain yn cynyddu'r GCC ac o'r herwydd, yn cynyddu angen y Cyngor i fenthycyca, mae'r mathau hyn o gynllun yn cynnwys cyfleuster benthycyca ac o'r herwydd, nid oes raid i'r Cyngor fenthycyca ar wahân ar gyfer y cynlluniau hyn. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor £dim o gynlluniau o'r fath yn y GCC.

### CH) Dyled Allanol

- 10. Y terfyn a awdurdodir ar gyfer dyled allanol.** Mae dangosydd pwylllog allweddol arall yn rheoli uchafswm lefel y benthycyca. Gwaherddir dyledion allanol y tu draw i'r terfyn hwn ac mae angen i'r Cyngor llawn osod neu ddiwygio'r terfyn. Mae'n adlewyrchu'r lefel o ddyled allanol y gellid, er nad yw hynny'n beth a ddeisyfir, ei fforddio yn y tymor byr ond nid yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r terfyn statudol y penderfynir arno dan adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai'r cyfan o holl gynlluniau'r cyngor neu gynlluniau cyngor penodol er nad ydyw hyd yma wedi defnyddio'r pŵer hwnnw.

Dywed y Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Cyllid bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwylllog hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n gweld anawsterau yn y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth yr ymrwymadau cyfredol, y cynlluniau presennol, a'r cynigion sydd yn yr adroddiad hwn ar y gyllideb.

- 11. Terfyn CRT ar ddyledion.** Fel rhan o ddiwygio hunan-gyllido'r CRT, dyrennir terfyn ar ddyledion mewn perthynas â'r CRT ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru sydd â chyfrifoldeb am dai; (i'w gymhwyso ar 31 Mawrth bob blwyddyn). Bydd y bwlc rhwng y ddau, os yw 'r GCC o fewn y terfyn, yn cael ei gyfeirio ato fel uchdwr eithaf benthyciadau. Mae'r rhagamcan yn cymryd i ystyried y setliad ar yr un sail a'r raddfa yn gyfeirnod 2.
- 12. Y ffin weithredol.** Ffin yw hon na fyddir fel arfer yn disgwyl i ddyled allanol fynd yn uwch na hi. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n ffigwr tebyg i GCC ond gall fod yn is neu'n uwch gan ddiwynnu ar lefelau'r ddyled wirioneddol.

## **Dangosyddion Rheoli Trysorlys**

### **Cyfyngiadau rheoli trysorlys ar weithgareddau**

Mae tri o gyfyngiadau mewn perthynas â gweithgareddau trysorlys sy'n ymwneud â dyled. Pwrpas y rhain yw cyfyngu ar weithgaredd y swyddogaeth trysorlys o fewn trothwyon penodol, a chan hynny, reoli risg a lleihau effaith unrhyw symudiad anffafriol yn y cyfraddau llog. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn ein cyfyngu'n ormodol, byddant yn effeithio'n andwyol ar y cyfle i leihau costau / gwella perfformiad. Y dangosyddion hyn yw:-

- Y trothwyon uwch o ran y cyfraddau llog amrywiadwy. Mae hwn yn nodi uchafswm ar gyfer cyfraddau llog amrywiadwy yn seiliedig ar y ddyled net o fuddsoddiadau;
- Y trothwyon uwch ar gyfraddau llog sefydlog. Mae hwn yn debyg i'r dangosydd blaenorol ac mae'n cynnwys trothwy uchaf o ran cyfraddau llog sefydlog; a
- Strwythur aeddfedrwydd y benthyciadau. Gosodir y terfynau gros hyn i leihau bregusrwydd y Cyngor petai symiau cyfraddau sefydlog yn cwmpo ac y mae angen eu hail-gyllido ac sydd eu hangen ar gyfer y terfynau isaf ac uchaf.





CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

## BLAENRAGLEN WAITH

### Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

13 Chwefror 2018

Swyddog Cyswllt:	Marion Pryor, Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg
E-bost:	<a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
Ffôn:	01248 756211

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
13 Chwefror 2018 24 Ebrill 2018	<b>Diweddariad Archwilio Mewnol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Diweddariad ar y cynnydd diweddaraf gan Archwilio Mewnol o ran sut mae'n cyflwyno'r gwasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.</li> </ul>	<b>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg</b> <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
13 Chwefror 2018 24 Ebrill 2018	<b>Adroddiad Cynnydd Archwilio Allanol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Diweddariad ar waith Archwilio Allanol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Archwiliad ar Berfformiad</li> <li>Archwiliad Ariannol</li> </ul> </li> </ul>	<b>Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad – Swyddfa Archwilio Cymru</b> <a href="mailto:Gwilym.bury@audit.wales">Gwilym.bury@audit.wales</a>  <b>Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloitte</b> <a href="mailto:cedge@deloitte.co.uk">cedge@deloitte.co.uk</a>
13 Chwefror 2018	<b>Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2018/19</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn unol â'r safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus (2017), rhaid i'r prif swyddog archwilio gyflwyno'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar gyfer eu cymeradwyo</li> </ul>	<b>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg</b> <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
13 Chwefror 2018	<b>Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 a'r Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2018/18</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli CIPFA mewn perthynas ag Arferion Rheoli Trysorlys yn argymhell y dylai awdurdodau lleol adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar eu strategaeth a chynllun rheoli, cyn cychwyn y flwyddyn.</li> <li>Bydd yr adroddiad yn sôn am y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol ar gyfer 2018/19 yn unol â gofynion y Côd Darbodus.</li> </ul>	<b>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151</b> <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
13 Chwefror 2018	<b>Cofrestr Risg Gorfforaethol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, gofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau.</li> </ul>	<b>Rheolwr Yswiriant a Risg</b> <a href="mailto:JulieJones@ynysmon.gov.uk">JulieJones@ynysmon.gov.uk</a>
13 Chwefror 2018	<b>Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor.</li> </ul>	<b>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad</b> <a href="mailto:GethinMorgan@ynysmon.gov.uk">GethinMorgan@ynysmon.gov.uk</a>
24 Ebrill 2018	<b>Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu ei gylch gorchwyl o bryd i'w gilydd i weld a yw'n briodol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau'r sector ac anghenion y Cyngor.</li> </ul>	<b>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151</b> <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
24 Ebrill 2018	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu – Adroddiad y Cadeirydd</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn</li> </ul>	<b>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151</b> <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
Mehfin 2018	<b>Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Datganiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol drafft 2017/18 ac i gyfrannu at y gwerthusiadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethiant y Cyngor ymhellach yn ystod 2018/19.</li> </ul>	<b>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151</b> <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>  <b>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad</b> <a href="mailto:GethinMorgan@ynysmon.gov.uk">GethinMorgan@ynysmon.gov.uk</a>

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
<b>Mehefin 2018</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2017/18</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn gofyn bod y prif swyddog archwilio yn cyflwyno adroddiad a barn archwilio mewnol yn flynyddol, i'w ddefnyddio gan y Cyngor i gyfrannu at ei ddatganiad llywodraethiant. Mae'n rhaid i'r farn archwilio mewnol flynyddol ddod i gasgliad ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu a rheoli risg y Cyngor yn gyffredinol.</li> <li>Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg ar gasgliad y gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod 2017/18.</li> </ul>	<b>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg</b> <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Gorffennaf 2018</b>	<b>Adroddiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2017/18</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn ofyniad yng ngweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n ymwneud â gweithgareddau'r trysorlys am y flwyddyn 2017/18.</li> </ul>	<b>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151</b> <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Medi 2018 Chwefror 2019</b>	<b>Argymhellion Archwilio Mewnol sy'n weddill</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Adroddiad o'r holl argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill</li> </ul>	<b>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg</b> <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Medi 2018</b>	<b>Siarter Archwilio Mewnol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd adolygiad mewnol o'r Siarter Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor iddo ei gymeradwyo</li> </ul>	<b>Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg</b> <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Medi 2018 Chwefror 2019</b>	<b>Cofrestr Risg Gorfforaethol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn unol â'r cylch gorchwyl, mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a, lle bo'n briodol, ofyn am ymateb gan y rheolwyr ar gamau gweithredu i reoli risgiau.</li> </ul>	<b>Rheolwr Yswiriant a Risg</b> <a href="mailto:JulieJones@ynysmon.gov.uk">JulieJones@ynysmon.gov.uk</a>

Dyddiad	Pwnc	Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)
Medi 2018 Chwefror 2019	<b>Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaed ar Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r materion o lywodraethu neu reoli risg yn y Cyngor.</li> </ul>	Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad <a href="mailto:GethinMorgan@ynysmon.gov.uk">GethinMorgan@ynysmon.gov.uk</a>
Medi 2018	<b>Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2016/17</b> Un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw cymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu felly: <ul style="list-style-type: none"> <li>gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethiant Blynyddol 2017/18, gan gynnwys y Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2017/18,</li> <li>derbyn adroddiad yr Archwiliwr Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260, a</li> <li>chymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth Terfynol.</li> </ul>	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>
Rhagfyr 2018	<b>Adolygiad o'r Strategaeth a'r Fframwaith Rheoli Risg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn unol â'i gylch gorchwyl, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adolygu'r Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer y Cyngor.</li> </ul>	Rheolwr Yswiriant a Risg <a href="mailto:JulieJones@ynysmon.gov.uk">JulieJones@ynysmon.gov.uk</a>
Rhagfyr 2018	<b>Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reolaeth Trysorlys ar gyfer 2017/18</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gofynion Adrodd am Arferion Rheoli Trysorlys CIPFA a threfniadau gwybodaeth gan reolwyr yn argymhell y dylai awdurdodau lleol, fel gofyniad sylfaenol, adrodd ar y sefyllfa canol blwyddyn o ran rheoli'r trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r sefyllfa bresennol ar fuddsoddiadau a benthyca.</li> </ul>	Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a>

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI NOT FOR PUBLICATION

(Teitl yr Adroddiad: Y Gofrestr Risg Corfforaethol / Title of Report: Corporate Risk Register)

## PRAWF BUDD Y CYHOEDD PUBLIC INTEREST TEST

Paragraff(au) Paragraph(s)	Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972
14 & 16	
Y PRAWF – THE TEST	
<p>Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-</p> <p>Mae'r mater yn ymwneud â materion busnes y Cyngor.</p> <p>The matter concerns the business affairs of the Council.</p>	<p>Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-</p> <p>Mae'r mater yn cyfeirio at materion busnes y Cyngor a all niweidio buddiannau'r Cyngor yn fasnachol, ariannol ac yn gyfreithlon.</p> <p>The matter refers to the business affairs of the Council which could prejudice the interests of the Council commercially, financially and legally.</p>
<p>Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/<del>llai o bwys</del> na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]</p> <p>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/<del>does not outweigh</del> the public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate]</p>	





Document is Restricted

This page is intentionally left blank